~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 471 Rhagfyr 2018 Pris:70c



# Cau Eglwysi?

Dros yr wythnosau diwethaf bu llawer o siarad yn yr ardal ynglŷn â'r posibilrwydd fod Eglwys Sant Padarn, Llanberis ac Eglwys Sant Mihangel, Llanrug yn cau. Mae aelodau Llanrug eisoes yn cynnal rhai gwasanaethau yn Y Sefydliad Coffa, ac y mae nifer o'r pentrefwyr dan yr argraff y bydd y gwasanaeth olaf yn eglwys y plwyf yn cael ei gynnal noswyl cyn y Nadolig. Rhag cyhoeddi unrhyw sylwadau camarweiniol, cysylltodd yr "Eco" â swyddfa'r Gadeirlan ym Mangor, a chafwyd y datganiad hwn wedi ei ddyddio ar Dachwedd 9fed :

*Mae cymunedau addoli yn Eglwys S. Padarn, Llanberis ac Eglwys S. Mihangel, Llanrug, yn trafod dyfodol eu hadeiladau yng ngoleuni'r costau atgyweirio.*

*Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u cymryd eto.*

*Mae'r ddwy gynulleidfa wedi ymrwymo i barhau â'u tystiolaeth a gwasanaeth Cristnogol yn Llanberis a Llanrug*

*Mae cymuned yr eglwys ym Mro Eryri yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chydymdeimlad eu cymdogion yn ystod yr amser heriol hwn.*

*Hybarch Mary Stallard*

*Canon Robert Townsend*

*(Gweler hefyd sylwadau y Parch John Pritchard ar dudalen 22)*

ISSN 2516-7235

# ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**RHIF 471**
**Rhagfyr 2018**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Nadolig/Ionawr | Sul 9 Rhagfyr | Gwener 21 Rhagfyr | Llanrug |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau**
**ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD**
**Y PWYLLGOR GWAITH**

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


# LLYTHYRAU

## CYMUNEDAU BYW/CREU CYMDEITHAS

Mae Cymru yn wlad unigryw am lawer iawn o resymau. Pa wlad arall sydd yn medru dweud fod yna gymdeithas o Gymry yn dod at ei gilydd ym mhob cwr o'r byd? Ac yn parhau i gyfarfod yn ffyddlon? Er bod hyn hefyd yn wir mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn anffodus mae ambell un wedi mynd.
Mae ein cymunedau wedi newid, ac mae llawer o'r rhesymau yn ymwneud â datblygiadau cyfoes sydd, yn fy marn i, ddim er gwell bob tro.
Beth am ail adeiladu ein cymunedau? Cyfarfod a chreu cymdeithas Gymraeg i ddod â'n cymdogion at ei gilydd unwaith eto? Mae ein plant angen clywed a defnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol a'r capel.
Beth am hysbysu'r ardaloedd sydd yn cwrdd i greu rhwydwaith o gymdeithasau er mwyn cyfarfod yn achlysurol? Oes rhai yn eich pentrefi neu drefi sydd yn awyddus i gael Cymdeithas Gymraeg a Chymreig?
Fel rhan o grŵp Cymunedau Byw Cymdeithas yr Iaith hoffwn roi cymorth i chi symud ymlaen â hyn.
Croeso ichi gysylltu â fi ar nia@cymdeithas.cymru neu drwy neges neu alwad ffôn ar 07443-035246/01978-448807.
Edrychwn ymlaen i gyd weithio â chi,

Nia Marshall Lloyd
Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith

---

Annwyl Olygydd,
Tybed a fyddech mor garedig â chyhoeddi'r nodyn isod yn eich papur.
Ledled Cymru, yn y Wladfa, Lloegr a'r Unol Daleithiau y mae tuag ugain mil o englynion bedd. Mae'n bosibl bod y cynharaf yn dyddio o 1570 ac mae'n draddodiad amrywiol, cyfoethog ac un sy'n fyw hyd heddiw. Cyhoeddwyd sawl casgliad dros y blynyddoedd ond erys rhannau helaeth o Gymru heb eu harchwilio, ac yr ydym yn prysur golli llawer i draul yr hin. Yr ydym hefyd yn colli'r wybodaeth leol sydd ei angen i'n goleuo am gynnwys a chyd-destun llawer ohonynt. Er mwyn ceisio diogelu'r agwedd hon ar ein treftadaeth y mae cynllun ar y gweill i gofnodi'r cwbl trwy dynnu lluniau ohonynt. Y mae eisoes miloedd o luniau ar y grŵp Facebook Englyn Bedd ond mae angen pobol a fyddai'n fodlon ymweld â'r mynwentydd lleol a thynnu lluniau gyda'r smartphone. Byddem yn gwirioneddol werthfawrogi pob cyfraniad. Mae croeso ichi ymuno â'r grŵp Facebook neu anfon neges i gutorhys@yahoo.com.

Dr Guto Rhys

---

Annwyl Ddarllenwyr,

Fel y gŵyr rhai ohonoch, fis Hydref eleni sefydlwyd cymdeithas lên ym Mhrifysgol Bangor o dan yr enw Cymdeithas John Gwilym Jones. Mae digwyddiadau'r gymdeithas wedi bod yn llwyddiant hyn yn hyn, ac fe hoffai'r gymdeithas eich gwahodd i'w sgwrs flynyddol gyntaf. Testun y sgwrs eleni fydd 'Gwaddol John Gwil', ac fe'i traddodir gan Alun Ffred Jones. Fe'i cynhelir yn Neuadd Mathias, Ysgol Gerdd Prifysgol Bangor am 19:30 ar yr 2il o Ragfyr. Pris mynediad fydd £3 wrth y drws. Dewch yn llu!

Cofion,
**Pwyllgor Cymdeithas John Gwilym Jones.**

**Cymdeithas John Gwilym Jones**
Cymdeithas Lên Prifysgol Bangor
cymdeithasjgj@gmail.com

# RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£25.00: Er cof annwyl am Emma Bernard

£10.00: Ms Jennie Williams,1 Rhydfadog, Deiniolen; Anne a Treflyn, Treforfan, Waunfawr; Di-enw, Llanberis; Iris Rowlands, Glan'rafon, Cwm-y-glo; Er cof am y ddiweddar Annie Evans gan Meirion, Mair a'r teulu; Nia Parry Jones, Y Dderwen, Rhos Bach, Caeathro; Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug

£5.00: Mr John Williams, Pen y Golwg, Deiniolen; Er cof am Beti Roberts, Rhydfadog, Deiniolen; Nance Hughes, Waunfawr.

## Penben

Pa fath o anifail yw Saluki? Pwy yw'r Gymraes sy'n cyflwyno The One Show? Pa brifddinas yn y byd yw'r un fwya deheuol?

Os lwyddo' chi i ateb y cwestiynau uchod, fe ddylech gysylltu yn syth gyda BBC RADIO CYMRU, sydd wrthi yn chwilio am gystadleuwyr ar gyfer y cwis Penben.

Cwis gwybodaeth gyffredinol yw'r cwis ac fe fydd y recordio yn digwydd ym Mangor a Chaerdydd ar ddechrau 2019. Rhowch gynnig arni.

Cysylltwch : radio.cymru@bbc.co.uk 03703 500600 ( opsiwn 4)

Gyda llaw, ci yw Saluki, Alex Jones sy'n cyflwyno'r One Show a Wellington yw'r brifddinas fwya' deheuol

## Siom a Phryder yng Nghyfarfod Blynyddol "Eco'r Wyddfa"

Oedd, roedd yr "Eco" wythnos yn hwyr yn dod o'r Wasg, ac efallai nad oedd rhai o'r darllenwyr wedi derbyn eu copi erbyn dyddiad cynnal y cyfarfod. Ond a oedd hynny'n rheswm/esgus dros beidio presenoli eich hun? Pedwar, ia PEDWAR yn unig a oedd yn bresennol gyda dau ymddiheuriad. Dyna'r siom. A derbyniwyd ymddiswyddiad y Cadeirydd, Gwyn Parri cyn y cyfarfod. Diolch i Gwyn am lenwi bwlch yng Nghyfarfod Blynyddol 2016 yn Neiniolen, a pharhau yn y swydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dwy aelod ifanc sy'n dal swyddi allweddol gyda'r "Eco" bellach: Rhian George yn Drefnydd Hysbysebion, a Marged Rhys yn Olygydd yr Ifanc ac yn gofalu am y Cyfryngau Cymdeithasol. Mae gweddill y Pwyllgor Gwaith i gyd dros 70 oed, ac wedi bod yn rhan o'r tim fu'n cynnal y papur bron o'r cychwyn cyntaf yn 1976. Dyna'r pryder. Mae pen draw i ymroddiad o ddeugain a mwy o flynyddoedd.


Ar dudalen 24 o Eco Tachwedd roedd hysbyseb am Ysgogydd i weithio ar gynllun peilot newydd i roi cynnig ar greu rhwydwaith o wefannau bro Cymraeg. Mae "Eco'r Wyddfa" yn rhan o un o'r broydd rheini, sef pump papur bro Arfon. Ni ellir disgwyl i'r ychydig sy'n cynnal y papur ysgwyddo baich ychwanegol o gynnal gwefan bro. Bydd angen gwirfoddolwyr; gwirfoddolwyr sy'n gyfforddus gyda dulliau digidol cyfredol. Mae lleihad sylweddol yng ngwerthiant papurau dyddiol bellach, a chenhedlaeth ifanc yn dibynnu fwy-fwy ar y wê a'r cyfryngau cymdeithasol am eu newyddion. Mae llai o newyddion pentrefi yn cyrraedd yr "Eco" bellach, o bosib am fod y newyddion rheini eisoes wedi bod ar wefannau a/neu gyfryngau cymdeithasol eisoes, ac yn 'hen' newyddion erbyn cyrraedd yr "Eco". Ac er fod 'Y Cymro' ("Papur Cenedlaethol Cymru") wedi ei atgyfodi, cyhoeddiad misol ydyw, yn union fel pob papur bro, ac yn dioddef o'r un 'hen' newyddion. Mae sefydlu gwefannau bro yn anhepgor i gyflwyno newyddion fel mae' nhw'n digwydd, a hynny yn Gymraeg. Fe sefydlwyd y papurau bro led-led Cymru er mwyn dod a newyddion lleol i gartrefi drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna yn y bôn fydd bwriad y gwefannau bro hefyd. Ond heb wirfoddolwyr wnaiff hynny ddim digwydd. Apêl sydd yma felly ar i'r genhedlaeth iau yn arbennig (ond heb anwybyddu'r rhai hŷn sydd a diddordeb chwaith) gysylltu â Rhian neu Marged i gael mwy o wybodaeth am y datblygiad hwn.

A gweddill y Cyfarfod Blynyddol? Mae'r swyddogion presennol yn parhau – heb Gadeirydd. A bydd angen cysidro pris y papur cyn y flwyddyn ariannol nesaf ar ddechrau Ebrill. Gweler y Daflen Ariannol hyd ddiwedd Mawrth eleni.

### Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2018

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Gwerthiant | | | 8295.20 |
| Hysbysebion | | | 5279.50 |
| Dosbarthu taflenni | | | 100.00 |
| Rhoddion | | | 1830.90 |
| Grantiau | | | |
| Llywodraeth Cymru | | 1870.00 | |
| Cynghorau Cymuned | | | |
| Llanberis | 600.00 | | |
| Llanddeiniolen | 400.00 | | |
| Llanrug | 700.00 | | |
| Waunfawr | 200.00 | 1900.00 | 3770.00 |
| Cystadleuaeth Tlws yr Eco | | | |
| Llôg Banc | | | 4.22 |
| | | | 19279.82 |
| **Gwariant** | | | |
| Argraffu, plygu a chasglu | | | 11200.00 |
| Dylunio | | | 3740.00 |
| Teipio | | | 2600.00 |
| Post | | | 697.58 |
| Papur, amlenni ayyb | | | 48.04 |
| Costau'r Wefan | | | 431.28 |
| Cyrsiau | | | |
| Eraill | | | 15.00 |
| | | | 18731.90 |
| "Elw" am y flwyddyn | | | 547.92 |

## Sbwriel a pherygl tân



Ers llenwi'r tyllau ac ail-wybebu rhannau o'r lôn sy'n arwain o'r Waunfawr i fyny am Fwlch y Groes, mae'n llawer mwy hygyrch i gerbydau gyrraedd y maes parcio bychan yng nghysgod Cefn Du. A chynnyddodd y sbwriel.

Nid yn unig hynny, ond mae'n amlwg fod rhywrai hefyd yn gwneud tân mewn nifer o safleoedd ar y maes parcio. A dyna'r perygl. Mae'r llun yn dangos darn go helaeth o dir wedi ei losgi'n ulw, a hynny'n weddol ddiweddar. Unai mae'r taniwr/wyr wedi medru ei ddiffodd mewn pryd neu mae'r tân, yn ffodus, wedi llosgi allan. Pe na bai hynny wedi digwydd, gallasai'r eithin mân a'r grug sy'n gorchuddio'r mynydd fod wedi mynd yn wenfflam.

## Yn ystod y mis aeth heibio....

- Sian Gwenllian AC yn galw ar i Lywodraeth Cymru ddileu deddf o gyfnod Margaret Thatcher sydd yn gwahardd Awdurdodau Lleol rhag cynnal gwasanaethau bysus. Cael ar ddeall fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi cysidro hyn fel opsiwn ar gyfer y dyfodol.

- Data wedi ei ryddhau gan HMRC yn dangos fod bron i 40% o'r tai a werthwyd yng Ngwynedd yn ystod 2017-18 yn ail gartrefi; cynnydd sylweddol o'r flwyddyn flaenorol. Cyngor Gwynedd eisoes wedi ceisio lleddfu'r broblem drwy godi 50% ychwanegol o Ebrill eleni ar berchnogion ail gartrefi. (Cyngor Môn yn cysidro codi'r dreth ychwanegol o 25% i 50%). Ond eisoes mae perchnogion rhai cartrefi gwyliau yn eu cofrestru fel 'busnes', sy'n golygu osgoi'r dreth ychwanegol. Pwysau'n cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r cymal sy'n galluogi perchnogion i osgoi'r dreth. Yr un yw'r broblem yng Nghernyw, ac yno, mae'r Aelod Seneddol yn honni fod osgoi'r dreth ychwanegol yn digwydd "ar raddfa eang", a bod perchnogion ail gartrefi hefyd "yn cael dylanwad anffafriol ar batrymau pleidleisio."

- Ganrif union wedi diwedd y "rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel" ac yr oedd dathliadau arbennig ym mhob ardal ble dioddefwyd colledion. Ond nid yw'n ymddangos fod unrhyw wersi wedi eu dysgu. Mae'n argyfwng echrydus yn yr Yemen, ac yn gywilyddus fod safle'r Llu Awyr ym Môn yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi peilotiaid Saudi Arabia; y peilotiaid rheini sy'n hedfan awyrennau rhyfel yn cario arfau a werthwyd iddynt o Brydain i greu difodiant yn Yemen. A Llywodraeth Westminster yn parhau i atal y gwerthiant hwnnw: "It's good for the economy".

- Oes lleihad yn nifer darllenwyr – boed yn llyfrau, cylchgronnau neu newyddiaduron? Daeth adroddiad am lyfrgell yn Cumbria heb i unrhyw lyfr gael ei fenthyca oddi yno mewn blwyddyn! Yr unig ystadegau ar gael oedd aelodau o'r staff yn logio llyfrau i mewn ac allan i wneud yn siwr fod y peiriannau yn dal i weithio! A chafwyd datganiad yn dweud fod "mwy i lyfrgell na llyfrau". Ac a oes unrhyw un bellach yn gweld colli llyfrgelloedd Llanberis a Deiniolen?

- ........ ac y mae trafferthion Brecsit yn parhau; ac anodd iawn cadw i fyny efo'r datblygiadau diweddaraf. Bydd deg diwrnod wedi mynd heibio ers sgwennu'r golofn hon a'r amser cyhoeddi, felly gallai fod unrhyw beth wedi digwydd. Ydi Theresa May yn dal yn Brif Weinidog? A fu pleidlais o ddiffyg hyder ynddi? Pwy o'r gwleidyddion sydd wirioneddol yn edrych ymlaen am Nadolig llawen?

## Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch 2018.















Canu Dosbarth Derbyn
1af – Elsa; 2ail – Guto; 3ydd – Gwenno ag Eben
Llefaru Dosbarth Derbyn
1af – Elsa; 2 – Guto; 3 – Gwenno
Canu Blwyddyn 1 a 2
1af – Cynan; 2 - Cadi Haf; 3 – Theo a Llio
Llefaru Blwyddyn 1 a 2
1af – Cadi Haf; 2 - Cynan; 3 – Theo a Llio
Canu Blwyddyn 3 a 4
1af – Anian; 2 - Glesni; 3 – Elliw Taylor ac Elliw Carol
Llefaru blwyddyn 3 a 4
1af – Glesni
Canu Blwyddyn 5 a 6
1af – Lois Haf; 2 – Elliw Tate
Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1af – Harry Booth
Unawd Offerynnol blwyddyn 6 ac iau
1af – Alys Davies- Williams ; 2 – Harry Booth ag Ari Hughes; 3 – Caio Owen ag Oli Hughes
Alaw Werin Blwyddyn 6 neu iau
1af – Lois Haf
Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau
1af - Elliw Tate; 2 – Lois Haf
Canu Emyn Blwyddyn 6 neu iau
1af – Elliw Tate; 2 – Cadi Haf; 3 - Lois Haf
Ymgom Blwyddyn 6 ac iau
1af – Grŵp Lois; 2 – Grŵp Glesni; 3 – Grŵp Alys
Perfformiad gorau yn yr ymgom – Jessica
Parti Canu
1af – Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Gwaun Gynfi
Côr blwyddyn 6 ac iau
Coôr Cynfi, Ysgol Gwaun Gynfi
Enillydd Cadair yr Eisteddfod i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi am waith Llenyddol: Lizzie Jones, Clwt y Bont

Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams, Manceinion am yr ymgais orau yn yr adran gerdd: Côr Cynfi, Ysgol Gwaun Gynfi
Enillydd tlws Crud yr Awel, Porth y Gogledd am yr ymgais orau yn yr adran lenyddol blwyddyn 6 ac iau: Dafydd Sion
Enillydd tlws er cof am Mrs Nancy Edwina Jones am y perffromiad gorau i blant blwyddyn 2 ac iau: Cynan
Enillydd Cwpan er cof am y diweddar Mr W.J. Eames am yr ymgais orau yn yr adran Adran Arlunio i blant blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi: Alys Davies-Williams
Enillydd tlws Mary a John am yr ymgais orau yn yr adran llefaru blwyddyn 6 ac iau: Harry Booth

Canlyniadau Cyfarfod y Nos
Unawd Blwyddyn 7-11
1af – Twm Tudor, Llanrhuddlad; 2 - Erin Wyn, Deiniolen; 3 – Elin Dafydd, Deiniolen
Unawd Offerynnol Blwyddyn 7-11
1af - Elin Dafydd, Deiniolen
Canu Emyn dros 50 oed
1af – Brynmor Jones, Caernarfon
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Blwyddyn 7-11: Erin Wyn, Deiniolen
Unawd Alaw Werin dan 21
1af – Erin Wyn, Deiniolen; 2 – Twm Tudor, Llanrhuddlad; 3 – Beca Fflur, Bethel
Unawd Cerdd Dant dan 21
1af – Elin Dafydd, Deiniolen; 2 – Erin Wyn, Deiniolen
Llefaru agored
1af – Owain Rhys, Chwilog; 2ail – Eirlys Hughes, Deiniolen
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed: Owain Rhys, Chwilog
Enillydd Cadair yr Eisteddfod: Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf
Enillydd Medal Lenyddol dan 25 oed: Alaw Fflur Jones, Felinfach
Enillydd Medal Lenyddol blwyddyn 7-11: Non Fôn Davies, Talwrn
Llefaru neu gyflwyno darn digri
1af - Gaenor Mai Jones , Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf
Darllen darn heb ei atalnodi
1af - Owain Rhys, Chwilog; 2 - Sandra Morris, Deiniolen; 3 - Elliw Hughes, Deiniolen
Unawd Agored
1af –Elin Dafydd, Deiniolen; 2 – Brynmor Jones, Caernarfon
Cwpan Bryn Du am yr ymgais orau adran gwau a gwnio: Valmai Williams,Deiniolen
Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais orau yn yr adran gerdd dan 21 oed: Elin Dafydd, Deiniolen
Stori Fer, Tlws er cof am y diweddar John David Evans, Maes y Dref: Ceinwen Jones, Clwt y Bont
Tlws Teulu Cae Maen am yr ymgais orau yn yr Adran Celf a Chrefft: Ceri Williams
Medalau Clwb Snwcer am y cynnyrch gorau yn yr adran gwaith coed: Cadi Haf a Theo, Deiniolen

# *Parhad* DEINIOLEN

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch** Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eto eleni yn Neiniolen ar ddydd Sadwrn, yr 27ain o Hydref, pan ddaeth cystadleuwyr o bell ac agos i gystadlu ac i ddiddori'r gynulleidfa. Roedd pawb yn gytûn inni fwynhau gwledd o berfformiadau yn y prynhawn a'r nos. Bu'r beirniaid cerdd, Rhian Owen a Dylan Cernyw a'r beirniad llefaru, Carwyn John, yn brysur iawn drwy'r dydd, a diolch i Lois Eifion, Steven Evans a Catrin Llewelyn am eu gwaith cyfeilio.

Braf hefyd oedd cael cwmni Emyr Wyn Gibson fel llywydd y cyfarfod prynhawn a roddodd ei anogaeth i blant y pentref i barhau i gystadlu a mentro ar lwyfan. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am gefnogaeth Ysgol Gwaun Gynfi, i'r eisteddfod eto eleni, i'r rhai a gyfrannodd dlysau, medalau a gwobrau ariannol i'r enillwyr ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod.

**Digwyddiadau Gŵyl Deiniolen i ddathlu'r Nadolig**

Noson rhoi goleuadau Nadolig Ymlaen ar hyd y stryd Fawr - Nos Wener 30 o Dachwedd am 6.00 o flaen Tŷ Elidir.

6ed Rhagfyr: Groto Siôn Corn yn Tŷ Elidir i ddechrau am 6.00.

12fed o Ragfyr: Tŷ Elidir, Te Bach yng nghwmni Sandra Morris i ddechrau am 1.00.

16 o Ragfyr: Siôn Corn ar daith o amgylch y pentref i ddechrau o Clwt y Bont am 5.00.

**Dymuna** Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau ymhell ac agos, hefyd ei chymdogion hoff.

**Eglwys Crist** Pnawn Sul, Rhagfyr 16 am 3 o'r gloch, bydd gwasanaeth Carolau a Darlleniadau Nadolig. Gwasanaeth i bob oed fydd hwn a bydd croeso cynnes i bawb. Bydd cyfraniad gan blant yr Ysgol Sul yn ogystal.

Ar Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24ain am 6o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Cymun yr Ŵyl, yr unig wasanaeth uniaith Cymraeg o fewn Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri felly dewch atom, bydd croeso i bawb. Gwasanaethir yn y ddau wasanaeth gan Y Canon Idris Thomas

**Cyfarchion Nadolig** Ar ôl profedigaeth o golli, Mam, Mam-yng-nghyfraith a Nain, ni fydd y Parchedig Ronald a Beti Wyn Roberts, 31 Nant y Glyn, Llanrug, yn gyrru cardiau Nadolig eleni, ond yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau agos a phell.

**Cyfarchion Nadolig** Ni fydd Margaret Roberts, Crud yr Awel, yn anfon cardiau Nadolig eleni, felly mae hi'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau. Yn hytrach bydd yn rhoi rhodd i'r Ambiwlans Awyr.

**Sul y Cofio** Cynhaliwyd gwasanaeth ger y Gofeb eto eleni ar fore Sul, Tachwedd 11eg. Daeth torf dda i dalu teyrnged a chofio aberth dynion ifanc y pentref a gollwyd yn ystod rhyfeloedd byd y ganrif olaf. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i holl drigolion y pentref a thu hwnt a fynychodd a diolch arbennig i'r Parch. John Pritchard am ei arweiniad, i aelodau seindorf Deiniolen am eu cyfraniadau teimladwy ac yn arbennig felly i Tomos Efans am chwarae'r 'last post'. Diolch hefyd i'r Cyng Elfed Williams am ei gyfraniad ag i'r holl gymdeithasau a gyflwynodd dorchau i'w gosod ar Gofeb y pentref.

Mae Gŵyl Deiniolen, yn ddiweddar, wedi talu am ail wneud yr ardal oddi amgylch y gofeb ac fe gwblhawyd y gwaith cyn Sul y Cofio. Mae'r gwaith yn werth ei weld ag yn rhoi urddas haeddiannol bellach i'r Gofeb er cof am ddynion ifanc y pentref a gollwyd.

Swyddfa Bost Symudol Dymuna'r Cyng Elfed Williams gyhoeddi y bydd amser ymweld y Swyddfa Bost symudol â'r pentref yn newid. Yr amser bellach yw 12.45 – 14.00 bob pnawn dydd Gwener yn y maes parcio ger Tŷ Elidir.

**Diolch** Dymuna Mr John Llewelyn Williams, Pen y Golwg, ddatgan ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth teilwng a fu ger y gofeb, dydd Sul yr 11fed o Dachwedd. Yn ogystal â hynny roedd y trefniadau wedi eu gwneud yn drylwyr dros ben. Hoffai fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn arbennig i Mr Carwyn Thomas am y gwaith ardderchog a wnaethpwyd ar y Gofeb, ac oddi amgylch y safle. Roedd yn eithaf anodd ar brydiau, gan fod y tywydd mor ansefydlog, ond cafodd ei gwblhau erbyn yr 11eg. Hyderaf y bydd y Gofeb, a'r safle, yn cael ei barchu ar gyfer y dyfodol, ( ym mhob ystyr).


**Diolch** Dymuna Glenys Owen, Bwthyn Isaf ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau a'r dymuniadau am wellhad buan yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ar ôl syrthio. Diolch i staff Ward Ogwen a Ffrancon am eu gofal.

## *Adnewyddu'r Gofeb i gofio colled canrif*


Cafwyd gwasanaeth syml ond cofiadwy yn Neiniolen ar Sul y Cofio, ac eleni, ganrif union wedi diwedd y Rhyfel Mawr roedd y Gofeb o flaen hen lyfrgell y pentref wedi ei hadnewyddu.

Roedd yr enwau ar y Gofeb wedi pylu, a phenderfynwyd fod angen ail-lythrennu'r arysgrif. Derbyniwyd arian o gronfa'r Pwyllgor Carnifal lleol, a Carwyn Thomas, crefftwr lleol, a fu'n gyfrifol am wneud y gwaith. Ef hefyd a ofalodd fod y gwaith palmantu o amgylch y Gofeb wedi ei gwblhau. Noddwyd y gwaith hwnnw gan Gwmni RPC(Rhuthun). Mae'r gymuned yn ddiolchgar iddo am waith mor lân a graenus.

Gosodwyd un ar bymtheg o dorchau o amgylch y Gofeb i gynrychioli holl wahanol fudiadau y pentref; gydag ambell dorch unigol gan deuluoedd. I gyd-fynd â'r adnewyddu a'r cofio, bu un o weithwyr Menter Fachwen (sy'n dymuno aros yn ddienw), yn gwau 74 pabi coch i gynrychioli pob un o feibion yr ardal a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Mawr. Cafodd y cyfan eu harddangos yn ffenestr Tŷ Elidir, gydag enw a chatrawd pob un ynghlwm wrth y pabi. Gyda diolch i Hywyn Williams am gasglu'r wybodaeth am bob un o'r milwyr.



**Achub y Plant**
**DIWRNOD SIWMPER NADOLIG**




# Dewch â gwên i'r byd mewn siwmper glyd

O jyrsis sy'n janglo i siwmperi sy'n sgleinio mae Achub y Plant yn gobeithio y bydd trigolion y fro yn ymuno yn hwyl Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant eleni ar ddydd Gwener, 14 Rhagfyr.

Nod Diwrnod Siwmper Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Ers lansio Diwrnod Siwmper Nadolig yn 2012 mae wedi codi swm o £13.5 miliwn, a'r llynedd fe godwyd y swm aruthrol o £4 miliwn o bunnoedd.

- Gallai £1 helpu 16 o blant wella o ddolur rhydd trwy halwynau hydradu syml.
- Gallai £5 brynu teganau i helpu plentyn yng Nghymru i ddysgu drwy chwarae.
- Gallai £16 roi pecyn genedigaeth i fydwraig yn Afghanistan er mwyn iddynt allu dod â bywyd newydd i mewn i'r byd yn ddiogel.
- Gallai £55 ddarparu beic ar gyfer gweithiwr iechyd yn Tanzania er mwyn iddynt allu gofalu am blant mewn lleoedd na all ceir eu cyrraedd.
- Gallai £200 dalu i blentyn fynychu ysgol gynradd yn Uganda am flwyddyn.
- Gallai £500 ariannu 36 o athrawon ysbrydoledig am fis cyfan yn Libanus.

Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd

Cofrestrwch i gymryd rhan ar www.christmasjumperday.org, ac unwaith i chi wneud hynny cewch e-bost fydd yn mynd â chi at dudalen sy'n cynnwys yr adnoddau Cymraeg. Mae'r pecyn codi arian yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmper Nadolig yn llwyddiant.

Os am sgwrs yn y Gymraeg am Ddiwrnod Siwmper Nadolig neu waith Achub y Plant yn gyffredinol, cysylltwch ag Eurgain Haf a Rhian Brewster ar 029 20 396838. Dilynwch ni hefyd ar Facebook @savethechildrenwales a Twitter @savechildrencym a chofiwch ddanfon eich lluniau atom drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpernadolig.

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU
(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Premier
Y Storfa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA
I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn
ARFON GARAGE
DEINIOLEN
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304

## O'r Geiriadur: sboncen

Swyddogaeth Geiriadur Prifysgol Cymru yw cofnodi a disgrifio datblygiad geiriau dros amser. Nid ydym byth yn bathu geiriau newydd – mae yna sefydliadau eraill yn gyfrifol am hynny, megis Canolfan Bedwyr. Sut mae mynd ati i fathu term neu air newydd? Mae rhai geiriau yn amlwg yn fenthyciadau o'r Saesneg e.e. abacws, datwm, ac eraill yn gyfuniadau o elfennau sy'n bodoli eisoes e.e. gliniadur, cad-drefniad, ond mae 'na ambell un sy'n fwy creadigol!

Mae llawer o bobl yn cadw'n iach drwy chwarae sboncen, sef, yn ôl y Geiriadur, Gêm i ddau neu bedwar o chwaraewyr a chwaraeir â racedi a phêl rwber fechan a fwrir yn erbyn waliau cwrt caeedig. 'Squash' yw'r enw Saesneg ar y gêm, ac mae'r gyfrol Termau Chwaraeon 1965 yn cynnig cadw at hynny, a Geiriadur Termau 1973 yn cynnig sgwas. O ble felly daeth yr enw sboncen? Yn ôl Dr. M.P. Bryant-Quinn, gofynnwyd i'r Athro Stephen J. Williams gymreigio'r enw gan banel cyfieithu termau y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Yr oedd yn ysgolhaig o fri a ddyfeisiodd gannoedd o dermau Cymraeg, yn enwedig ym maes chwaraeon. Bu farw ym 1992, ac mae coffadwriaeth iddo gan D. Ben Rees yn sôn am ŵr bywiog, cyfeillgar a chymdeithasgar. Mae'n debyg ei fod hefyd yn un arbennig o dda am ddweud stori, a dyma'r hanes adroddwyd ganddo am fathu'r enw sboncen.

Wedi derbyn y gwahoddiad i gymreigio'r enw, fe aeth yr Athro Williams i'r gampfa i wylio pobl yn chwarae'r gêm. Wrth iddo syllu o'r oriel a gwrando ar y belen yn taro yn erbyn wal y cwrt ac yn rhybedian, daeth y gair sbonc, yn yr ystyr adlam, i'w feddwl, gyda sŵn y gair Cymraeg yn cyfateb yn union i'r hyn yr oedd yn ei glywed wrth i'r gêm fynd rhagddi. Atodi'r terfyniad -en wedyn, a dyna greu'r gair!

Esiampl dda o enw yn dynwared y weithred mae'n cyfeirio ati, a chipolwg ddifyr ar y broses o fathu enwau. Gyda'r gaeaf ar y trothwy, a'r nosweithiau'n medru bod yn hir, cymerwch y cyfle i bori yn GPC Ar Lein gan gofio am yr hanesyn bach hwn a chwilio am enghreifftiau tebyg: http://gpc.cymru

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched** Nos Lun, Hydref 22ain, yng Nghlwb Cymdeithasol, Llanberis, treuliwyd noson bleserus pryd y daeth nifer o sefydliadau y Ffederasiwn ynghyd i'r Swper Cynhaeaf blynyddol. Roedd arlwy traddodiadol o lobscows a tharten afal ar y fwydlen yn dilyn sgwrs gan Mr John Rippon, prif arddwr Gerddi Bodnant, Dyffryn Conwy. Gyda chymorth sleidiau cafwyd orig ddiddorol ganddo yn cyflwyno hanes y gerddi amrywiol a'i waith o ddydd i ddydd gydol y flwyddyn.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen leol yng nghyfarfod mis Tachwedd pryd y cefnogwyd y swyddogion i barhau gyda'u dyletswyddau am flwyddyn arall. Ar ddiwedd y noson fe groesawyd Mr Arfon Gwilym i roi sgwrs am Ganu Plygain. Yn dilyn cafwyd datganiad hyfryd o dair carol ganddo a chyfle hefyd i'r aelodau ymuno mewn carol i gloi noson a fwynhawyd gan bawb.

Mae'r cyrsiau undydd dan ofal Pat Jones ac Anita Long yn parhau ym Mhlas Tan y bwlch ac edrychir ymlaen at noson y Bingo Nadolig ar Ragfyr 10fed am 7 o'r gloch yn y Clwb Cymdeithasol, Llanberis.


Yn anffodus, noder y bu raid gohirio'r Noson Garolau yng nghwmni Genod Cadwyn hyd y flwyddyn newydd.

**Profedigaeth** Ar Dachwedd 1af yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Muriel Wyn Evans, Cae Gwyddel, yn 79 mlwydd oed. Yn ei hymadawiad gwelir colli aelod o un o hen deuluoedd y pentref, yn ferch i'r diweddar William a Blodwen Evans a chwaer i'r diweddar Douglas. Ni fu ei hiechyd yn dda ers blynyddoedd ond ymlynodd i'w haelwyd hyd y misoedd olaf pryd y gafodd ofal arbennig ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Cydymdeimlwn ag aelodau o'r teulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth. Bydd bwlch ar ei hôl yn y gymdogaeth.

**Yr Eglwys Bresyteraidd**

*Oedfaon Rhagfyr*

2 am 5: Parch Marcus Wyn Robinson ( Gweinidog)
9 am 5: Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus
16 am 2: Gwasanaeth Nadolig dan nawdd yr Aelodau gyda lluniaeth i ddilyn yn Caban







SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



## PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Pêl Bonws** Enillydd mis Hydref oedd Mr Roger Harris, Waen, gyda rhif 56. Llongyfarchiadau.

**Cinio Nadolig** Cynhelir Cinio Nadolig y Pensiynwyr yng Ngwesty'r Lion, Cricieth, dydd Sadwrn, Rhagfyr 8fed. Bydd y bws ynn cychwyn o flaen yr Ysgol Gymuned am 12.15 o'r gloch.

**Ysgol Sul Bosra** Fore Sul, Sul y Cofio, cynhaliwyd gwasanaeth i gofio'r bechgyn o'r capel a syrthiodd yn y Rhyfel. Atgoffwyd y plant o ystyr gwisgo'r gwahanol babiau, y coch, y gwyn, y du a'r porffor. Difyr oedd clywed hanes y milwr a gafodd ei achub yn y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd ei fod yn cario ei Feibl Bach ym mhoced uchaf ei siaced. Trawyd ef gan fwled ond fe aeth y fwled drwy'r Beibl gan osgoi ei galon. Roedd y plant wrth eu bodd hefo'r stori wir yma. Am 10.30 fe aeth yr aelodau i Eglwys Santes Helen a chawsant ymuno yn y cofio a chael cyfle i osod croes fechan wrth y Gofeb. Bu'n fore dwys llawn sensitifrwydd.

Dymunir diolch i aelodau'r Eglwys am gael ymuno yng ngwasanaeth Cofio'r Bechgyn, y Merched a'r holl Anifeiliaid a gollwyd ar faes y gad.

Rydym i gyd yn anfon ein cofion anwylaf at Anti Liz a Nain Efan a Jac wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Lerpwl. Da deall eich bod yn gwella a brysiwch yn ôl atom wedi ichi gryfhau.

Gobeithir trefnu gweithgaredd i ddathlu'r Nadolig ym mis Rhagfyr.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr yw Jayne Parkinson, 10 Bryn Eglwys ac Yvonne Williams, Bwthyn Tŷ yr Ardd, Waen.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor adferiad iechyd buan i Liz wedi triniaeth yn Lerpwl yn ddiweddar. Ar Ragfyr 20fed cynhelir pnawn i ddathlu'r Nadolig yn y Neuadd Gymuned am 2.00 gyda chyfraniadau gan blant yr ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Bydd cyfle i ganu'r Hen Garolau a chael cyfle i gymdeithasu hefo paned a mins pei. Mynediad £2 a £1 am raffl. Croeso i chwi rieni, gwarchodwyr a ffrindiau ymuno a mwynhau Hwyl yr Ŵyl.

**Gwellhad** Anfonir ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl yn y pentref.

**Diolch** Dymuna Liz, 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth yn dilyn ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Yr un modd dymuna Dafydd, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau am adferiad iechyd wedi ei driniaeth yn ysbyty Gwynedd.

**Er Cof** Dymuna Mair, Meirion a theulu y ddiweddar Annie Evans (Nannie Cyttir) ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, chwaer a modryb annwyl. Diolchir hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gartref Plas Pengwaith, Llanberis, a Meddygfa Waunfawr.

## AC YN GALW AM 'ADOLYGIAD ANNIBYNNOL' I RADDAU TGAU SAESNEG

Mae ysgrifennydd cabinet cysgodol Plaid Cymru dros Addysg a'r iaith Gymraeg wedi galw am ymchwiliad annibynnol brys yn dilyn cadarnhad fod newidiadau mawr i feini prawf yr arholiad wedi golygu bod disgyblion a safodd yr arholiad TGAU Saesneg yn haf 2018 wedi eu rhoi dan anfantais glir o'u cymharu â disgyblion a safodd yr arholiad yn haf neu hydref 2017.

Wrth godi'r mater yn siambr y Senedd heddiw, dywedodd AC Plaid Cymru dros Arfon a'r ysgrifennydd cabinet cysgodol dros Addysg a'r iaith Gymraeg Siân Gwenllian,

"Rwy'n ymwybodol iawn o bryderon rhieni, athrawon ac arweinwyr addysg yng ngogledd Cymru o ganlyniad i ganlyniadau arholiad TGAU Saesneg. Mae'n ymddangos bod plant yn y gogledd a safodd yr arholiadau yn haf 2018 wedi cael tro gwael.

"Gallai hyn fod wedi effeithio ar hyd at 700 o blant – plant a allasai fod wedi cael gradd C neu'n uwch petaent wedi eu trin yn yr un modd â phlant a safodd yr arholiadau yn 2017. Mae hyn yn effeithio ar eu dewisiadau am yrfa yn y dyfodol, ac y mae hyn yn amlwg yn annheg.

"Mae honiad difrifol arall fod athrawon yng ngogledd Cymru wedi colli hyder mewn dau gorff - Cymwysterau Cymru a CBAC.

Gofynnodd Siân Gwenllian AC i Lywodraeth Cymru gymryd 'pryderon o ddifrif' ac i gynnal ymchwiliad annibynnol pellach - ond gwrthod hynny wnaeth Arweinydd y Tŷ, Julie James AC.

Meddai Siân Gwenllian AC,

"Nid yw ymateb Llywodraeth Cymru yn dderbyniol. Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal ymchwiliad, ond nid yw hynny wedi rhoi unrhyw hyder i rieni yn y system. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac un o'r ffyrdd hynny yw ymchwiliad annibynnol pellach."


AM BETROL, DISEL, OLEW ac AMRYFAL ANRHEGION MODURO
PAPURAU NEWYDD A PAYPOINT
GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM- Y- GLO
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN DDA I BAWB
Ffôn-Llanberis 872046

CRWYDRO ER BUDD
Taith wefreiddiol
Taith 2019
Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019

Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn – 01286 881911 (dydd)
Symudol – 07795 485081 (nos)
Ebost - crwydro@crwydro.com
Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...
www.crwydro.com

DMM
CLIMB NOW WORK LATER
Nadolig Llawen
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth BAWB yn
DMM
LLANBERIS
www.dmmwales.com

# TUDALEN YR IFANC



## Gig yn y Gilfach Ddu go iawn!

Ar Hydref 28ain roedd rhywbeth go arbennig yn digwydd yn yr Amgueddfa Lechi. Diolch i fudiad Kids in Museums ac ymgyrch Get Loud in Libraries, cynhaliwyd gig mawreddog gyda neb yn llai nag un o fandiau Cymraeg mwya'r wlad – Candelas.

Bwriad cynnal gig ar brynhawn dydd Sul oedd denu mwy o deuluoedd, plant a phobl ifanc i'r amgueddfa i fwynhau cerddoriaeth mewn awyrgylch wahanol. Roedd yr ymateb yn wych gyda dros 150 o bobl yn heidio i'r Ffowndri i wylio'r band roc yn canu hits fel 'Anifail' a 'Rhedeg i Paris'.

Dywed Elen Roberts o'r Amgueddfa Lechi;

"Roedd hi mor braf cael croesawu Candelas i'r Amgueddfa a gweld y Ffowndri'n llawn o bobl leol, ifanc a hŷn yn mwynhau eu hunain ar b'nawn Sul. Mae'r Ffowndri'n leoliad gwahanol iawn i gynnal gig ac roedd pawb i weld yn gwerthfawrogi hynny. Rydan ni'n gobeithio cynnal ddigwyddiadau cerddorol eraill yn y dyfodol, o weld adborth mor gadarnhaol i'r digwyddiad yma."

Yn ôl Alison Bowyer o Kids in Museums, o'u holl gigs ar draws y DU, hwn oedd gyda'r ganran uchaf o bobl ifanc a theuluoedd. Llwyddiant ysgubol felly! Roedd Stewart Parsons, y trefnydd ar ran Get it Loud in Libraries hefyd wedi mwynhau gweld y brwdfrydedd tuag at gerddoriaeth Gymraeg ac yn edrych ymlaen at weithio efo'r Amgueddfa a Gigs y Gilfach Ddu eto.

Roedd gwirfoddolwyr o griw trefnu Gigs y Gilfach Ddu hefyd yn helpu yn ystod y diwrnod gyda Chris Roberts o flog cerddorol Son am Sin yn cyflwyno'r band. Dywed;

"Roeddem ni fel criw Gigs y Gilfach Ddu yn falch iawn o fod yn rhan o'r digwyddiad, a gallu helpu i gynnal gig yn y Gilfach go iawn. Roeddem ni wedi'n syfrdanu gweld gymaint o blant a theuluoedd yn dod i wylio'r gig sydd sicr yn dangos yr angen i barhau i drefnu gigs yn ystod y dydd ar benwythnosau."

Dyma oedd adborth sawl rhiant wedi'r digwyddiad, gan ddweud taw prin iawn yw'r cyfle i blant a phobl ifanc da 18 fwynhau cerddoriaeth Gymraeg byw y tu allan i'r Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau yn ystod yr haf. Roedd rhieni hefyd yn teimlo'n saff wrth ddod a'u plant i leoliad cyfarwydd fel yr amgueddfa, oedd hefyd yn cynnig gweithgareddau i'r plant drwy gydol y dydd.

Mae'r Amgueddfa Lechi a Gigs y Gilfach ddu yn gobeithio gallu cydweithio mwy yn y dyfodol i gynnal mwy o gigs yn ystod y dydd gan bod yr awydd sicr yno yn lleol ar gyfer y fath beth. Felly gwyliwch allan am fwy o newyddion yn y flwyddyn newydd!

## Alffa yn rocio Rockfield!

Yn rhifyn Hydref yr Eco roedd eitem ddifyr am Dion Jones a'i ddewis i ganolbwyntio ar gerddoriaeth ar ei flwyddyn allan. Ers hynny mae ei fand, Alffa, wedi bod yn brysur iawn! Dyma air sydyn gan Dion am ddatblygiadau diweddar;

"Cawsom y fraint o fynd lawr i Rockfield gyda Gorwelion [ddiwedd Hydref]. Recordiodd y band sesiwn fyw yno ar gyfer rhaglen syn mynd ar BBC 2 ym mis Rhagfyr. Y ddwy gân wnaethom recordio oedd Gwenwyn, sef ein cân wreiddiol ni, a hefyd 'Shoot the Runner' syn gân enwog gan y band Kasabian a gafodd ei recordio'n wreiddiol yn Rockfield. Oedd y profiad o fynd i rywle fel Rockfield yn anhygoel. Do'n i na Siôn [Land, drymiwr y band] yn meddwl y bysa ni'n cael y cyfle i recordio yn yr un 'stafell a Queen! Fel o'n i'n eistedd yn y 'control room' yn disgwyl am Siôn orffen gosod y drymiau dywedodd y perchennog 'Bowie sat there'!!

Mae'r gân Gwenwyn bellach wedi ei ffrydio dros 700,000 o weithiau ar Spotify. Dyma ffigwr oedden ni fel band byth yn meddwl y byswn ni'n cyrraedd. Mae gweld y ffigyrau'n codi'n ddyddiol yn anhygoel. Y rheswm ein bod ni wedi cael gymaint o ffrydiau ydy drwy bobl yn ychwanegu'r gân i 'playlists' ar Spotify. Y playlist mwyaf yw 'Walk Like a Badass' sydd efo 950,000 o ddilynwyr. 'Da ni' gyffrous iawn i weld sut fydd y ffigyrau yma yn y dyfodol gyda gobaith o gyrraedd 1,000,000!"

Pwy a wyr, bosib bydd hi'n filiwn erbyn y rhifyn nesaf!

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## Regatta Llyn Padarn

Ym mis Medi 1864 cynhaliwyd seremoni fawreddog yn Llanberis i dorri'r dywarchen gyntaf fel arwydd fod y gwaith ar adeiladu rheilffordd Caernarfon-Llanberis ar gychwyn. Cael a chael fu hi i'r boneddigion gael gwylio Miss Wynne, Glynllifon yn torri'r dywarchen oddi ar y ddol a'i rowlio ymaith dros blanc o bren wedi ei orchuddio mewn felfed! Yna, daeth y glaw. Glaw digon trwm i orfod gohirio'r mabolgampau oedd wedi eu trefnu ar gyfer y 500 o blant y dyffryn a fu'n gorymdeithio'n gynharach i swn Band Brenhinol y Faenol (sef Band Llanrug).

Roedd regatta wedi ei threfnu ar Lyn Padarn hefyd, i gynnwys saith ras. Ond oherwydd y tywydd, dim ond dwy a gynhaliwyd: ras i gychod pedair rhwyf ac un arall i gychod dwy rwyf. Enillwyd y ddwy ras gan rwyfwyr o Gaernarfon. Ond pwyllgor o Lanberis a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Methais a chael cofnod am rasys cyffelyb ar y llyn hyd 1889 pan gynhaliwyd y 'Llanberis Regatta' ym mis Awst y flwyddyn honno. Yn yr adroddiadau amdani yng ngwahanol bapurau newyddion y cyfnod, cyfeirir ati fel cystadleuaeth a gai ei hadnabod fel y 'Cwm y Glo Regatta'. (Felly, rhag pechu trigolion Llanberis na Chwm y Glo, fe'i galwaf am y tro yn Regatta Llyn Padarn!) Ond mae'r adroddiad yn awgrymu fod cystadleuthau hwylio a rhwyfo wedi eu cynnal yn gynharach na 1889, ac mai fel Regatta Cwm y Glo y cai ei hadnabod.

Assheton Smith, Sgweiar y Faenol oedd yn noddi regatta 1889, er nad oedd yn bresennol. (Roedd i ffwrdd ar fordaith ei hun ar y pryd). Rhai o swyddogion y Faenol a chapteiniaid llongau o Gaernarfon oedd yn gofalu am y regatta, ond pwyllgor o weithwyr lleol oedd yn gwneud y trefniadau. John Hughes, Ffowndri Dinorwig oedd y Cadeirydd, J.E.Jones, Drug Stores, Llanrug oedd yr ysgrifennydd, a Henry Williams, Stabla yn Drysorydd.

Fel yn 1864 roedd Band Brenhinol y Faenol yno i ddiddori'r gwylwyr – dros dair mil ohonynt ar lannau'r llyn ac ar y creigiau uwchben, os credir yr adroddiadau. Roedd nifer helaeth o gystadleuthau, a chafwyd tywydd ardderchog, felly roedd yn esgus perffaith i gymaint o bobl dreulio pnawn Sadwrn allan yn yr heulwen.

Mae'r gwahanol gystadleuthau'n cael eu henwi, ond does gen i ddim syniad beth yw'r termau Cymraeg cywir amdanynt. Dyma nhw : 'four-oared gigs', 'pair-oared', 'pair-oared without coxswain' , 'punt', 'sculling' a hwylio (sailing). Roedd rhai yn 'agored i'r byd' (!) ac eraill wedi eu cyfyngu i drigolion Cwm y Glo a Llanberis. Roedd cystadlu i fechgyn hefyd. Cafwyd hefyd gystadleuthau nofio, ond does dim gwybodaeth am eu hyd. Yr hyn sy'n rhyfeddol braidd yw'r ffaith fod y cystadleuthau'n agored i ferched hefyd. Mae rhyw Miss Williams, Pen Llyn yn fuddugol, gyda Miss Williams arall o'r Felinheli yn ail.

Mae'n amlwg fod y regatta wedi bod yn llwyddiannus, oherwydd nodir ei bod yn fwriad sefydlu Clwb Hwylio a Rhwyfo yn y gymdogaeth. Tybed a gafodd hynny ei wireddu?

Ym mis Awst y flwyddyn ddilynol cynhaliwyd regatta arall, gyda'r Dr Mills-Roberts yn un o brif swyddogion y gystadleuaeth, ond swyddogion y pwyllgor yn aros. Ceir cyfeiriad at gystadleuaeth i "boats under 15 feet keel", gyda dau ymgeisydd yn unig – ac un yn cael ei ddiarddel am beidio gwneud y cwrs llawn. Ni cheir yr un manylder am y diwrnod y tro hwn, er fod y tywydd unwaith eto yn ffafriol.

Methais a darganfod cyfeiriad at gystadleuaeth debyg wedyn hyd 1914, sef Ail Regatta Flynyddol Llanberis (does dim son am Gwm y Glo nac am y regatta flynyddol gyntaf). Ond roedd cychwyr o Gwm y Glo yn amlwg: mae cwch o'r enw 'Sunbeam' yn cael ei henwi fel un o gychod Cwm y Glo. Unwaith yn rhagor, ceir cystadleuthau i'r merched. Yn y ras i gychod dwy rwyf, mae Lily Jones a Sidney Hughes yn gyntaf a Maggie Williams a Gwyneth Jones yn ail. Daeth Lily Jones yn gyntaf hefyd ar y 'punt race'. Pwy oedd y merched hyn tybed?

Am sawl blwyddyn y cynhaliwyd y regatta yn Llanberis? Mae'n bosib iddi gael ei gohirio dros gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac efallai nad oedd mo'r awydd na'r brwdfrydedd i'w ail-gychwyn yn ystod y 1920'au – os na wyr rhywun yn wahanol. O bosib na chafwyd fawr o gystadlu ar y llyn wedyn hyd Gemau'r Gymanwlad yn 1958.

## Yr Arddlas

Dyma'r safle a oedd dan ystyriaeth ar gyfer adeiladu'r ysgol gyntaf yng Nghwm y Glo, ond doedd gen i ddim syniad ble roedd. A ddaeth neb ag ateb chwaith yn dilyn fy ymholiad yn y rhifyn diwethaf. Felly, dyna fynd ati i chwilio.

Unwaith yn unig y daw'r enw i'r amlwg yng ngwahanol gyfrifiadau y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny yn 1871. Bryd hynny roedd Hugh a Jane Jones yn byw yno gyda'u mab dyflwydd oed, David. Ond erbyn 1881 does dim son am Yr Arddlas, ac y mae Hugh a Jane a'u teulu cynyddol wedi symud i Talgwynedd.

Ond o astudio enwau'r tai o amgylch Yr Arddlas yn 1871 mae'n bosib cael rhyw syniad o'i leoliad. Dyma drefn y tai yng nghyfrifiad 1871: Ty'n Gerddi, Glan'rafon, Glan'rafon, Arddlas, Bryngro, Bryngro, Ty'n lan, Ty'n y Maes. Dyma'r drefn yn 1881: Ty'n Gerddi, Glan'rafon, Glan'rafon, Bryngro, Bryngro, Bryngro, Ty'n lan. Mae bellach dri ty o'r enw Bryngro. Ac mae'n ddigon posib mai y Bryngro cyntaf yn 1881 oedd Yr Arddlas yn 1871.

Felly roedd Yr Arddlas ar y lon sy'n arwain o brif stryd y pentref heibio'r eglwys a chapel y Methodistiaid ac ymlaen am y lon sy'n arwain drosodd am Fryn Bras. A hawdd deall y ddadl nad oedd digon o dir yno i sefydlu ysgol.

Ac fel ol-nodyn i'r ymchwiliad, diddorol i mi oedd sylwi mai yn y Glanrafon agosaf at Yr Arddlas yr oedd fy hen daid a'm hen nain yn byw yn 1871 – cyn i'r teulu symud yn ddiweddarach i Ty'n Lan.

## Llythyrau Milwr o'r Rhyfel Mawrth

Derbyniais gopi o ddau lythyr a anfonwyd gan Daniel Roberts, Llanberis i Reithor y Plwyf yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyhoeddwyd yr hanes, a dyfyniadau o'r llythyrau yn rhifyn Mehefin 2015 o'r "Eco".

## Evan Parry, Dinorwig a Dunedin

Gyda diolch i Mrs Alice Jones, Bethel am gysylltu. Hi oedd wedi anfon y llun o Evan Parry House, Dunedin, Seland Newydd a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Mae ei mab, Raymond yn byw yno ers nifer o flynyddoedd, a hithau wedi bod yno'n ymweld. Adroddodd fel roedd taith bws o amgylch yr ardal a oedd wastad yn aros ger ty o'r enw 'Argoed'. Dyna gysylltiad Cymraeg arall felly, a thybed a fu Evan Parry yn byw yma, yntau Cymry eraill a roes enw Cymraeg ar gartref yn Dunedin?

# Undeb y Mamau, Penisarwaun?



Mae'n weddol sicr mai o flaen eglwys Santes Helen, Penisarwaun y cafodd y llun ei dynnu. Does dim gwybodaeth amdano, ond mae'r dyddiad 1956 ar ei gefn. Mae lle i gredu mai Undeb y Mamau sydd yn y llun. Ond beth am yr enwau?

# Beth yw'r achlysur?



Derbyniwyd y cais hwn gan Margaret Roberts o Gaernarfon ar ran wyres cyn Reithor Llanrug. Bu'r Parch. David Morris Jones yn gwasanaethu gyda'r Eglwys yng Nghymru yn Nhregarth a Llanbeblig cyn dod yn Rheithor Llanrug, lle bu tan ei farwolaeth yn 1957. Yn y llun mae dau offeiriad arall bob ochr iddo a Maer neu Gadeirydd y Cyngor yn annerch y gynulleidfa. Oes rhywun o fro'r Eco yn cofio'r achlysur ac yn medru enwi rhywun yn y llun? Mae tŵr tebyg i'r un a welir yn ardal Llandwrog ac un arall yng Nglyn Rhonwy.

Roedd gan y rheithor ddwy ferch, Evelyn a Gwen, a dreuliodd y rhan fwyaf o'u hoes yng Nghaernarfon. Bu farw Gwen Baxter y llynedd yn 98 oed a daeth ei merch Mary Voss, sydd yn byw yn Amsterdam gyda'i phriod, i aros i'r dref at Norah Davies, ffrind y teulu. Bu'r ddwy yn didoli lluniau a phapurau am hanes lleol a'u cyflwyno i'r Archifdy ac Amgueddfa Bangor. Mi fuasai Mary yn falch iawn o gael unrhyw wybodaeth am y llun dynnwyd pan oedd y teulu yn byw yn Rheithordy Llanrug.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com






**Dyma newyddion gwahanol a diddorol**

Croeso nôl adref i Elgan, Tan-y-coed, Stad Bod Hyfryd ar ôl ei antur i fyny 'Mera Peak' yn Nepal, yr Himalayas. Mae'n fynydd 6,476 metr o uchder, sef chwe gwaith uwch na'r Wyddfa. Cymerodd ddeuddeg diwrnod i gyrraedd y copa drwy eira a rhew a'i gorff yn gorfod dygymod â'r uchder. Roedd yn un o bump allan o griw o ddeuddeg a lwyddodd i gwblhau y fenter. Cafodd y fraint o weld Everest gyda'i lygaid ei hun, ac wir wedi mwynhau y profiad. Rhaid dy longyfarch ar yr ymdrech a'r profiad fydd gen ti i'w gofio am byth.

**Merched y Wawr** Croesawodd Anita yr aelodau i'r cyfarfod nos Iau, Hydref 25, gan ymddiheuro dros y rhai oedd yn methu dod, gan anfon cofion at Haydn, gŵr Glenys, sydd ddim yn dda ar hyn o bryd, Pat Jones, Brynrefail, oedd ein gwraig wadd a chafodd groeso arbennig. Roedd Pat wedi bod yma ychydig flynyddoedd yn ôl a'i thema bryd hynny oedd gwneud addurn ar gyfer y bwrdd cinio Nadolig. Eleni bu'n dangos inni, a'n helpu, i wneud addurn Nadolig, sef dyn eira, a dyna ddiddorol oedd y gwaith a Pat wedi dod â'r defnyddiau gyda hi. Cyn ei hymddeoliad, cymhorthydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Bethel oedd Pat ac rwy'n siŵr ei bod y teimlo fel ei bod yn ôl gyda'r plant yn ein cwmni ni!!

Mae Pat yn brysur ym myd cyhoeddus, yn llywydd Sefydliad y Merched Brynrefail ac wedi bod yn Llywydd Ffederasiwn Gwynedd Caernarfon o Sefydliad y Merched am bedair blynedd. Hefyd mae yn beirniadu mewn sioeau celf, gan gynnwys Sioe Llanelwedd. Ffermio mae hi a Ken ei gŵr, ac yn ystod tymor wyna yn Cae Coch mae hi'n hynod brysur. Aeth pob un ohonom adref yn falch iawn o'n dyn eira. Diolchwyd iddi am ddod atom gan Heulwen Huws.

Derbyniodd Pat, y trysorydd, rodd ariannol ar ran y gangen gan Gyngor Cymuned y pentref a diolchwyd iddynt. Nesta a Nan fu'n gyfrifol am baratoi'r baned a'r raffl a enillwyd gan Alma.

Cynhaliwyd Cwis Hwyl yng ngwesty Meifod, Bontnewydd, nos Wener, Tachwedd 9. Roedd cangen Waunfawr yn un o'r tair cangen oedd yn cyfrannu at y wobr eleni.

Derbyniwyd Poster Dementia, wedi ei noddi gan Ferched y Wawr, Alzheimers Disease International a Phrifysgol Bangor. Roedd cais gan Ferched y Wawr ar iddo gael ei arddangos mewn lleoliad cyhoeddus yn y pentref. Mae i'w weld ar yr arddangos-fwrdd o flaen y Ganolfan. Diolch i Irene am gymryd y gofal o'i osod.

**Cael ei Holi** Ydych chi yn hoffi bwyd môr? Dyna'r cwestiwn a ofynnwyd i Gwenno (syrjyri) pan oedd hi a'i mam, ei wyres ac ŵyr bach, Megan a Dian Tudur, yn cerdded i lawr Stryd y Plas yng Nghaernarfon. "Ydw," oedd yr ateb gan Gwenno. Chris o'r rhaglen Bwyd Epig Chris a welir ar S4C oedd yn holi.

**Noson Calan Gaeaf** Roedd na dipyn go lew o wrachod ac ysbrydion o amgylch y pentref y nos Fercher Calan Gaeaf yma, rhai gyda'u rhieni yn gwmni iddynt! Doedd neb yn gwrthod rhoi 'trit' bach iddynt rhag ofn y 'triciau' a oedd ganddynt i fyny eu llewys. Ond yn anffodus newidiodd y tywydd a difethodd y glaw yr hwyl.

**Goleuo'r Goeden Nadolig** Mae Cyngor Cymuned y pentref wedi trefnu i oleuo coeden Nadolig y pentref nos Fercher, Rhagfyr 6, am 6.15 o'r gloch. Gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol ac y daw criw da o drigolion y pentref at y Ganolfan i gefnogi ac i ganu carolau yn y Ganolfan gyda phlant yr ysgol ac eitemau eraill.

**Dyddiadau i'w cadw mewn cof**

**Cyfarfod Carolau Noswyl Nadolig** Bydd ein cyfarfod carolau yn cael ei gynnal yng Nghapel y Waun ar nos Lun, Rhagfyr 24 am 4.30pm. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad ar y noson er mwyn ei gyflwyno i achos da.

**Cyfarchion Gŵyl y Nadolig**
Dymuna Anne a Treflyn, Treforfan, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a'u ffrindiau i gyd.

**Babanod Bach Newydd**

Llongyfarchiadau i Lesley a Wayne, Stad Bryn Golau, ar enedigaeth merch fach, Loti Ann. Wyres i Denise a Terance a gor-wyres i Angela.

Llongyfarchiadau i Eira, Dôl Afon, Teras Glyn Afon, ar enedigaeth merch fach, Lottie Grace. Chwaer fach i Leon ac wyres i Teresa, Cae Gwyn.

Merch fach a anwyd i Vera Louise a Tony, Stad Dôl Erddi. Mae Sophia wedi gwirioni gyda'i chwaer fach Skyler ac mae Linda a John, Stad Bro Waun, wrth eu bodd gyda'u wyres fach newydd. Llongyfarchiadau i'r teulu.

Llongyfarchiadau i Heulwen ac Alffi, Hafod y Rhug Uchaf, ar ddod yn nain a thaid i Jac, mab bach a anwyd i'w merch Sioned a'i phriod, Jamie, sydd yn byw yn Mhrestatyn. Bydd Noa wrth ei fodd gyda'i frawd newydd.

Ganwyd merch fach i deulu Ffridd Felan, gor-wyres i Raymond a Pat yw Ivy, merch i'w hŵyr Paul a'i gymar Lowri, maent yn byw yn Llanllechid. Mae Gwyn yn daid bllch i'r fechan.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd olla chroeso i'r rhai bach a mwynhewch y magu a'r gwarchod.

**Diolch** Dymuna teulu Sion, Penrhos, ddiolch i'r rhai fu'n gofalu'n garedig amdano tra bu yng Nghartrefi Preswyl Plas Pen Gwaith, Penygroes, a Phlas Garnedd, Llanberis, a chartref Nyrsio Penisarwaun a Llantysilio, Ynys Môn. Diolch i feddygon a nyrsys Syrjyri Liverpool House. Diolch hefydd am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth ac i'r rhai a wasanaethodd yn y gwasanaeth ac a drefnodd yr angladd.

**Dymuna** Nance Hughes, Wernas, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cyfarchion, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn.

**Adref o'r Ysbyty** Tra yn aros yn Henllan gyda Ann, ei merch, a Geraint aeth Doris Roberts yn sâl a gorfu iddi dreulio deuddydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Ond mae'n braf cael dweud ei bod wedi dod ati'i hun ac mae adref yn ôl yn y Waun. Cymerwch ofal mawr, Doris.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion cynnes at Grace Dawson, Stad Tref Eilian, sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Simon Wall, Stad Llys y Waun, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae'n dda clywed bod Tomos Hughie Williams, Llwydiarth, yn gwella wedi iddo dderbyn gofal yn yr ysbyty am dros wythnos o amser. Ond diolch byth mae'n teimlo'n well meddai ei ferch, Delyth.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Llys Eryri yn eu profedigaeth o golli tad Mark, tad-yng-ngyfraith annwyl i Delyth a thaid caredig Lowri.

Cydymdeimlwn ag Anne a Dave, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth drist o gollie eu wyres, Tayler, yn frawychus o sydyn.

Yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Bryn Beryl bu farw Ilid (Tai Isaf gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys â Huw ac Eryl, ei mab a'i merch, ac â'r teulu yn eu colled drist.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Llwydiarth yn eu profedigaeth o golli brawd-yng-ngyfraith Iona a oedd yn byw yn Awstralia.

**Gwasanaethau Capel y Waun am fis Rhagfyr**

2: Cyfarfod yr Aelodau
9: Wedi llenwi (AJ)
16: Cyfarfod Carolau
23: Cyfarfod Dolig yr Ysgol Sul
30: Dim oedfa

# Antur Waunfawr ar y rhestr fer ar gyfer gwobr genedlaethol

Antur Waunfawr




Mae Antur Waunfawr ar y rhestr fer am wobr genedlaethol yn dilyn llwyddiant yr elusen yng ngwobrau Busnesau Cymdeithasol Cymru, a gyflwynwyd gan Wales Coop yng Nghaerdydd eleni.

Mae Antur Waunfawr yn darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i oedolion ag anableddau dysgu, ac enillwyd y wobr menter gymdeithasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol y flwyddyn Cymru ym mis Medi. O ganlyniad, enwebwyd yr elusen ar gyfer y Wobr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngwobrau mawreddog 'Social Business UK' yn Llundain.

Bydd y seremoni yn cael ei chynnal yn Neuadd Guild Llundain ar 28 Tachwedd, a chyflwynydd y noson fydd y comedïwr enwog Mark Watson. Mae'r gwobrau'n cydnabod sefydliadau am eu rhagoriaeth busnes a'u cyfraniad i'r gymdeithas, ac maent hefyd yn gyfle i fentrau cymdeithasol rwydweithio gyda'u cyfoedion ac arweinwyr y sector.

Enwebwyd Antur Waunfawr yn dilyn ei hymroddiad i wella iechyd a llesiant oedolion ag anableddau dysgu. Derbyniodd y fenter gymdeithasol grant gan y Gronfa Gofal Integredig yn 2017 ac ers hynny mae wedi sefydlu rhaglen weithgareddau llesiant rheolaidd, sy'n cynnwys beicio, dosbarthiadau ffitrwydd, marchogaeth a mwy.

Dywedodd Menna Jones, Prif Weithredwraig Antur Waunfawr: "Rydym wrth ein bodd cael ein henwebu ar gyfer y wobr genedlaethol hon. Mae'n dyst i ymroddiad ein staff sy'n gweithio mor galed i ddarparu gwasanaeth gofal o'r safon uchaf i oedolion ag anableddau yn eu cymuned."

# Gwasanaeth Cofio



Cynhaliwyd Gwasanaeth Cofio gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol ar safle y Gofgolofn fore Gwener, Tachwedd 9, gyda thrigolion y pentref yn ymuno â hwy. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi ac i'r disgyblion am gymryd rhan. Bu Trefor Beech a Roy Jones yn tacluso safle'r Gofgolofn gogyfer â'r gwasanaeth. Diolch iddynt hwythau ac i Cadi am gofnodi'r gwasanaeth.

## Clirio Coed

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ers rhai wythnosau i dorri'r coed yn y goedwig rhwng Cefn Du a Moel Eilio. Roedd nifer helaeth o'r coed eisoes wedi eu chwythu drosodd gan wyntoedd cryfion.

Tybed a oes a wnelo hyn â'r bwriad i gynhyrchu trydan yn yr hen Chwarel Fawr ar lethrau'r Cefn Du? Prin fu'r wybodaeth am y cynllun trydan hwnnw ers misoedd bellach.



## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Mawr ddiolch** am yr holl gyfarchion, haelioni a charedigrwydd teulu, ffrindiau, cymdogion a chydnabod, a dderbyniais ar achlysur dathlu fy mhen-blwydd yn ddiweddar.
Bu'n amser dedwydd a chefais gyfnod pleserus iawn yn dathlu. Mae diolch diffuant ynghlwm wrth y gair yma o werthfawrogiad.
Nia Parry Jones, Y Dderwen, Rhos Bach

**Gwasanaethau y Capel**
Dydd Sul, Rhag 2il am 2.00: Y Parch Marcus Wyn Robinson ac i ddilyn am 3.00 cynhelir Cyfarfod Swyddogion.
Dydd Sul ,Rhag 16eg am 5.30: cynhelir Oedfa'r Nadolig dan ofal plant, ieuenctid a Gweinidog y Capel. Bydd croeso cynnes i bawb, fel arfer, i'r gwasanaeth arbennig hwn.

**Diolch** Hoffai Dawn Owen, Cae Phillip, Caeathro, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae Dawn yn gwerthfawrogi'n arw y cymorth hwn ac yn gwella'n dda.

**Cyfnod yn yr ysbyty** Braf yw gweld Aled (Lodge) Jones o gwmpas ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Er bod ganddo gyfnod arall i ddod yn yr ysbyty mae'n falch o fod adre yn ei gynefin.

### Colli Dewi

JONES - DEWI LEWIS 11 Tachwedd, 2018. Yn dawel yng nghwmni ei deulu yn ei gartref, 13 Erw Wen, Caeathro, yn 56 mlwydd oed. Gŵr arbennig a charedig Catrin, a thad cariadus Hywel ac Elan; mab y diweddar Dr a Mrs C.W.L. Jones, Rhuthun, a brawd Huw, John a'u teuluoedd. Mab-yng-nghyfraith Mrs N. Lloyd, a brawd-yng-nghyfraith Dewi, Elwyn a'u teuluoedd. Angladd brynhawn Mawrth, 20 Tachwedd, 2018. Gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Caeathro am 1.30 o'r gloch gan ddilyn yn gwbl breifat yn Amlosgfa Bangor am 3.00 o'r gloch. Blodau'r teulu'n unig, ond derbynnir rhoddion yn ddiolchgar er cof am Dewi tuag at Awyr Las ac Ymchwil Cancr y Gogledd Orllewin. Ymholiadau i Roberts & Owen, 15 Stryd Bangor, Caernarfon. LL55 1AT. ffôn 01286 678658.
Dyma ddywedwyd am Dewi ar gylchlythyr Clwb Rygbi Caernarfon "Gyda thristwch mae CRC yn nodi marwolaeth Dewi Jones fu'n aelod gwerthfawr o'r clwb, ac a wnaeth gyfraniad arbennig gyda ieuenctid y clwb. Roedd yn ŵr bonheddig a chwrtais, yn berson trefnus iawn ac yn mynnu tegwch i bawb. Bydd colled fawr ar ei ôl ar y Morfa. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Catrin a'r plant, Hywel ac Elan."
Yma yng Nghaeathro mae llawer un wedi colli cyfeillgarwch a hawddgarwch Dewi a mawr fu ei gyfraniad i'r Clwb Cae Chwarae ac i ddiwylliant y pentref. Cofiwn yn annwyl iawn at Catrin a'r teulu.

## DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

**Gŵyl Gerdd Dant** Cynhaliwyd yr Ŵyl ar 10fed o Dachwedd yn Mlaenau Ffestiniog, er ei bod yn ddiwrnod digon stormus. Diolch yn fawr iawn i S4C am ddod â'r Ŵyl yn fyw i'n cartrefi. Fe fu i mi fwynhau y diwrnod yn fawr. Am 2 o'r gloch y prynhawn fe fu imi eistedd yn gyfforddus o flaen tanllwyth o dân braf i wylio tan 4.40, pryd y daeth y newyddion, ac i wneud dipyn o de, ac yna am 4.50 cefais y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru ac Awstralia. Bu i Gymru ennill o 9 i 6 ac yr oeddwn ar i fyny. Ar ôl i'r gêm orffen daeth yr Ŵyl yn fyw unwaith eto, hyd nes y daeth y diwedd am 1.45 y bore. Diwrnod ardderchog ac y mae'n rhaid canmol Nia Roberts yn fawr iawn. Ardderchog, Nia, dim rhyw hen siarad diflas, yr oedd hithau yn ysbryd yr ŵyl.
Mae yn wir mai ychydig iawn a ddaeth i fyny i'r gogledd o'r de, ta waeth am hynny cawsom bigion y gogledd a chryn dipyn yn trio ar wahanol gystadlaethau. Roedd hynny yn braf ynddo'i hun. Roedd yn braf gweld pobol y Blaenau ar eu gorau a'r croeso yn arbennig o gartrefol. Pan yn gweithio byddwn yn mynd i'r swyddfa yn Blaenau a dyma sut y cefais innau hwy bob tro. Mae Blaenau Ffestiniog wedi dod i'r amlwg y tro yma a hynny ar ei orau. Da iawn chi ond, wrth gwrs, yn ardal y chwareli mae'r croeso ar ei orau bob amser.
Diolch arbennig unwaith eto i S4C ac i Nia, diwrnod a fydd yn y cof am beth amser rwyf yn sicr a hynny am y mwyniant a gafwyd. Mawr ddiolch i drigolion y Blaenau.

**Cwyno** Mae llawer o gwyno wedi bod yn yr ardal. Braf iawn ydyw gweld Mr Llewelyn Jones, 4 Bro Elidir, wedi gwella yn lled dda ac yn gallu dreifio unwaith eto ac Anwen wedi gallu mynd i'w chartref yn ôl. Llew, cymra bethau yn araf a phaid â thrio rhedeg cyn cerdded a brysia wella yn llwyr.

**Cofion** annwyl unwaith eto at Mrs Megan Morris yn y cartref yn Llanberis. Cofion at bawb sydd heb fod yn rhy dda a gobeithio am wellhad i bawb cyn y Nadolig.

## CWM Y GLO

**Llongyfarchiadau** i Llio, Bod Elan, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion at Carl McGee, Hyfrydle, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Cyfarchion** y Tymor Dymuna Iris Rowlands, Glan'rafon, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau, teulu a chymdogion, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.









# Atgofion Cegin

Daeth llu o atgofion hyfryd i'r cof yn dilyn marwolaeth cyn athrawes yn Ysgol Brynrefail fu, yn ddi-os, yn ddylanwad mawr ar famau a neiniau bro'r Eco pan oeddent yn ifanc. Bu Sarah Ann Davies (Nansi) yn athrawes coginio rhwng 1957 a 1968, cyfnod pan oedd ei darpar ŵr W.J. Davies yn Bennaeth Ffrangeg o 1952-1971.

Bu farw Nansi Davies ar Awst 26 yn 89 mlwydd oed. Yn enedigol o Lanberis bu'n driw gydol ei hoes i'w milltir sgwâr ac i Dîm Achub Mynydd Llanberis, er iddi fyw yn Rhuthun am ddeugain mlynedd. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Llanelwy ar Fedi 7fed 2018.

Rhoddodd Nansi Davies ( Jones bryd hynny) ei stamp ei hun ar yr ystafell goginio newydd sbon yn yr ysgol newydd yn 1957. Trefn a glanweithdra oedd y mantra, ond y tu cefn i'r sgrin roedd person annwyl a thriw fu'n ffrind da i lawer gydol ei hoes. Yn ei gwersi roedd ei brwdfrydedd yn heintus, a'i hegni yn ddi-ball. Ni chofiaf hi erioed yn eistedd i lawr wrth ein dysgu, a phrin iawn y byddai'n ceryddu. Dechrau yn Fform Wan - Rheolau'r Gegin - cario cyllyll a'r min at y llawr, dim rhedeg, gwallt yn ei ôl a'r ewinedd yn lân ayb. Erbyn Fform Tŵ roeddem yn barod i goginio gyda drôr a chwpwrdd o offer bob un. Byddai yn galw enw pob eitem a ninnau yn ei godi i fyny,

"Reit ta, chwith i'r dde, cyllell fawr, cyllell balet, cyllell bestri, llwy fwrdd, llwy bwdin, llwy de, fforc, llwy bren ayb. A chofiwch dim blawd oddi tanynt!"

'Run fath hefo'r cwpwrdd oddi tano,

"Powlen fawr, basin, rhidyll, pin rholio, weiren oeri." Gallaf ei chlywed hyd heddiw!

Wedi cyrraedd i oedran Lefel O roedd y gwersi'n ymylu at Safon 'Cordon Bleu' a phymtheg ohonom yn cyflawni aseiniau gwahanol mewn amser byr ac yn ceisio golchi a sychu pob llestr a thun cyn i'r gloch ganu. Os digwyddai anffawd, e.e. rhywbeth yn torri neu yn llosgi, ein diogelwch ni fyddai'r flaenoriaeth. A chawn gyfle arall bob tro, "If at first you don't succeed."

Fel disgybl Lefel A cofiaf iddi roi cyfle i mi diwtora Fform Wan unwaith y mis, ymarfer dysgu cyn cyrraedd Coleg Llandaf. Felly y dechreuodd chwarter canrif o ddysgu'r pwnc fy hun.

Doedd dim yn llorio Nansi Davies, na dim diogi yn perthyn i'w chymeriad. Cofiaf fel y byddai'n gwneud cymysgedd 'sponge' hefo deuddeg wy ar y tro yn y Kenwood, a chwech o genod bach yn ei rannu i'w papurau cacen, hi wedyn yn gofalu am y crasu a'r genod hŷn yn addurno bob un ar gyfer bwffe Noson Wobrwyo, neu barti Nadolig, neu ambell dro byddai hambwrdd o fwydydd dethol i'w weini i westeion pwysig fel arholwyr.

Dyma stori fach arall am wyau. Roedd fy mam, Persis James, yn athrawes goginio yn Ysgol Brynrefail rhwng 1933 a 1940 ac archebai wyau ar gyfer ei gwersi o siop Wil John ym Mrynrefail. Hwyl fawr i ni yn blant fyddai clywed am ddirgelion y siop honno. Byddai Wil John yn danfon yr wyau ddiwrnod yn hwyr gan gyhoeddi'n uchel i unrhyw un yr yr ystafell, "Mae'r ieir wedi dodwy!!"

Yr hyn gofiaf fwyaf am Nansi Davies oedd ei threfn a'i hanogaeth ymhob sefyllfa. Mae llawer ohonom yn ddiolchgar am ei hyfforddiant ac yn cofio'n annwyl amdani. Cydymdeimlwn â'i merch, Nia, ei gŵr Russell a'r plant yn Rhuthun.

Rhiannon Roberts

## Pigion Byd Natur

### *Cawr yng Nghanol Dyfroedd y Moroedd*




Ffynhonnell: Casgliad Stampiau Post y Byd N.G. *Morfilod*;

Morfil? Ia! criadur na welais rio'd mohono ar dir y byw, ond cyfaddefaf imi weld hen ddigonedd ohono fo neu hi mewn darluniau a ffotograffau! Ond beth ydy' o? Criadur gwaed cynnes a deulu'r Cetacea sy'n byw yn y cefnforoedd, ac y mae dolffiniaid a'r llamhidyddion a welir ar arfordiroedd Cymru yn gefndyr a chyfnitherod o waed coch cyfan iddo.

Y mwyaf o ddigon ydyw'r morfil glas, sydd ran ei hyd yn ddeg ar hugain metr, sef naw deg wyth troedfedd, ac yn byw (os caiff lonydd) hyd nes ei fod o, neu hi, ymhell dros saith deg mlwydd oed Nid felly bu hi rai blynyddoedd yn ôl! Does ond rhaid darllen cyfrol J.O. Hughes Hela'r Morfil Ddoe ac Heddiw Dinbych: Gwasg Gee (1961) er mwyn sylweddoli mewn gwirionedd pan mor ddibynnol ar gyrff morfilod roedd rhen Gymry mewn cyfnodau hanesyddol. Hyn i gyd rhag llwgu, a sicrhau tra'n morio eu bod yn dychwelyd adref nid yn unig 'efo straeon di-rif, ond hefyd daliadau am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, a'r arian perthynol i feistri llongau, yn golygu eu bod fel gwerin bobl yn byw rhag newynu. Lleddid morfilod yn y moroedd, a'u llusgo ar fyrddau llongau, ble ceid ffatrioedd cynhyrchu olew. Bu hela diddiwedd, hyd brinhau'n enbyd y mamaliaid dan sylw, ac erbyn hyn ni cheir ond rhai gwledydd a ddeil ati efo'r arferiad o'u lladd.

Daw hyn at rywbeth mwy diddorol fyth! Mi ddwedais eisoes nad ydw i erioed wedi gweld morfil byw, ond mi welais dameidiach-weddillion y criadur! Yn ei gyfrol A Guide to Dinas Mawddwy (1893) cofnodir gan yr heddwas a'r chwilotwr dygn Charles Ashton (1848-1899) tra'n sôn am borth Eglwys Sant Tydecho, Mallwyd:

...petae ni'n hyddysg yng ngwyddor Palaeontoleg yna mi allem ddweud beth ydyw'r esgyrn sydd uwchben y porth. Os gellir rhoi coel ar draddodiad (sylwer!) asen ynghyd â rhan o asgwrn cefn morfil ydynt a ddaliwyd yn y Ddyfi yn yr hen amser gynt... gwyddys eu bod yno'n y flwyddyn 1816. (Cyfieithiad)

Sut y bu i'r morfil hwnnw'n yr Afon Ddyfi farw, nis gwyddom ni, ond nid dyma'r tro cyntaf na'r tro olaf, ran hynny, mentraf ddatgelu, i forfilod lanio ar dir sych yma yng Nghymru. Caethiwyd ym mhedwar degau'r 20fed ganrif forfilod peilot ar draeth ger Deganwy. Bu iddynt oll farw. Daw'r rhai a glwyfwyd, neu wedi gwaelu, i ddyfroedd bas; hynny er mwyn anadlu am y tro olaf. Byddant yno'n wylo, a'u synau'n bellgyrhaeddol yn denu rhai o'u tylwyth atynt. Yn drist iawn, fe'u hudir i ddŵr bas, ac fe'u delir yno, gyda'r canlyniad hynod drist eu bod oll yn methu dyfod oddi yno, ac yn darfod amdanynt.

Gan gofio porth yr eglwys ym Mallwyd, diddorol sylwi bod Maoriaid Seland Newydd yn defnyddio esgyrn morfil a fu farw mewn dŵr isel fel gwrthrychau cysegredig, pryd cynhelir cyfarfodydd o'u heiddynt. Yn eu golwg taonga ydyw pob morfil, ac fe'i ystyrir yn drysor ysbrydol. Disgynnydd ydyw o dduw'r cefnfor, sef Tangaroa. Gelwir man canfod morfil marw'n tapu, sef tir sanctaidd.

*(Ein llongyfarchiadau i Dafydd Guto am gipio'r 'dwbwl' yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar, sef ennill y Gadair a'r Fedal Ryddiaith)*





## Ymwelwyr o Ffrainc yn mwynhau'r gwersi yn nhymor yr Hydref yn Ysgol Brynrefail

Roedd Frederique Lamblot, athrawes yn Collège Champollion, Dijon, Burgundy, Ffrainc eisiau profiad o arsylwi mewn ysgol ym Mhrydain. Mae gan Mr Iwan Barker-Jones , pennaeth y gyfadran Ddyniaethau gyswllt yn rhinwedd ei swydd Cysylltiadau Rhyngwladol gyda Ruben Chapella-Orri sy'n gweithio hefo Prifysgol Bangor yn y maes yma. Rhoddwyd y ddau ohonynt mewn cyswllt gyda'i gilydd ac fe gytunwyd i Frederique gael dod yma i Ysgol Brynrefail i dreulio pythefnos yn arsylwi gwersi a bywyd a gwaith yr ysgol.

Cafodd argraffiadau ffafriol iawn o'r ysgol. Roedd yn hoff o weld y dulliau dysgu gwahanol, TEEP a'r medrau meddwl sydd yn cael eu defnyddio yn y gwersi yma.

Nododd bod ein dysgwyr yn llawer mwy annibynnol yn y modd maent yn dysgu, ac rydym yn disgwyl iddynt gymryd llawer o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain yma. Nododd bod dysgwyr yn Ffrainc yn tueddu i fod yn llawer mwy goddefol.

Crëwyd argraff fawr arni trwy'r Diwrnod Sgiliau. Nododd cymaint roedd disgyblion i weld yn mwynhau, ac yn arbennig felly nododd pa mor effeithiol oedd y chweched wrth arwain eu gweithgareddau nhw.

Roedd yn hoff iawn o'r dulliau adborth ac yn arbennig felly 'Cnoi Cil' gan ei fod yn rhoi cyfle penodol i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith. Nododd nad yw'n arferiad yn Ffrainc i ofyn am farn nac adborth gan y dysgwyr.

Hefo'r esgid ar y droed arall, bu Frederique hefyd yn cymryd rhan yng ngwersi coginio Anwen Powell, ac yn ateb cwestiynau am



fwydydd a diwylliant bwyd Ffrainc gyda'r dysgwyr.

Mae hi bellach wedi dychwelyd i Ffrainc wedi arsylwi pynciau ar draws yr ysgol. Mae wedi tynnu lluniau ac wedi derbyn copïau o adnoddau gan wahanol adrannau.

Mae'n fwriad ganddi dreialu'r dulliau dysgu ac adborth a welwyd a barnu a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad y dysgwyr o dan ei gofal yn Dijon.

Daeth merch Frederique sef Emma Lamblot atom hefyd yn ystod ail wythnos cyfnod arsylwi ei mam yn y gwersi ac er ei bod ar ei gwyliau treuliodd nifer o ddyddiau yn y gwersi yng ngwisg ysgol Ysgol Brynrefail gan wneud ffrindiau newydd a mwynhau'r profiad yn arw iawn.

## Ymweliad trigolion Hafan Elan





Cafwyd prynhawn bendigedig yn Ysgol Brynrefail ddydd Gwener, Tachwedd 16eg pan ddaeth trigolion Hafan Elan Llanrug draw atom am ymweliad. Bu Mrs Ellen Williams a Mrs Gwenno Bebb draw yn gweld y trigolion yn Hafan Elan er mwyn gofyn iddynt a fyddent yn hoffi dod draw atom i'r ysgol i wneud gwahanol weithgareddau a chael paned a sgwrs. Roedd ymateb y trigolion yn gadarnhaol a hwythau yn awyddus iawn i wneud hynny. Aed ati yn dilyn hynny i roi'r trefniadau yn eu lle.

Gofalodd yr Adran Gelf a Dylunio a Thechnoleg bod gweithgareddau gwneud cardiau Nadolig wedi eu paratoadau gofalus ar gyfer yr ymwelwyr, a diolch yn fawr iawn i staff yr adrannau hynny am eu paratoi gofalus. Daeth disgyblion blwyddyn 13 sy'n astudio Celf ac Iechyd a Gofal draw at yr henoed er mwyn cymdeithasu gyda nhw a gwneud rhai o'r gweithgareddau ar y cyd â nhw. Trefnodd Mrs Anwen Powell yr athrawes Bwyd a Maeth bod disgyblion sy'n astudio'r pwnc ym mlwyddyn 10 wedi paratoi te a chacennau fel lluniaeth i bawb yn ystod y pnawn. Yn ôl yr ymwelwyr fe gawsant wledd ac roedd y cacennau'n fendigedig! Trefnodd y Pennaeth Cerdd hefyd bod aelodau o fand yr ysgol yn dod draw hefyd ar ddechrau'r pnawn i roi ychydig o adloniant i bawb.

Bu'r pnawn yn llwyddiant ysgubol a phawb, hen ac ifanc wedi mwynhau cwmni ei gilydd. Eisoes mae staff a thrigolion Hafan Elan wedi gofyn a ellir cynnal prynhawn tebyg yn nes at y Pasg a byddwn hefyd yn trefnu i griw bychan o ddisgyblion fynd draw i Hafan Elan i berfformio ychydig eitemau cerddorol yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig.

## Sgwrs am astudio meddygaeth a hyfforddiant CPR




Ar Hydref y pedwerydd ar hugain daeth Dr Tomos Owen atom i gyfarfod rhai o ddisgyblion blwyddyn 11-13 sydd â diddordeb mewn astudio Meddygaeth. Trefnwyd hyn fel rhan o Raglen Gyrfaoedd yr ysgol ar gyfer y disgyblion hŷn. Roedd hi'n sgwrs fuddiol iawn a phawb wedi mwynhau gwrando ar brofiad a chynghorion y meddyg ifanc. Diolch yn fawr iawn iddo am gytuno i ddod atom i'r ysgol.

Ar Hydref 16eg, trefnodd Mrs Sian Harris bod y paramedic Brian Thomas yn dod i'r ysgol fel rhan o ymgyrch "Diwrnod Adfer y Galon". Cafodd disgyblion Bl9, criw Bl10 sy'n dilyn cwrs "Llwyddo Brynrefail" a rhai o flwyddyn 12 a 13 gyfle i gael eu hyfforddi ar sut i wneud "CPR".

Dyma rai o ddisgyblion Bl10 y cwrs Llwyddo yn derbyn eu tysygrifau am fynychu'r hyfforddiant gan y Pennaeth.

Ysgol Brynrefail

Veritate · Scientia · Labore

# Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail







Cafwyd diwrnod llawn bwrlwm yma yn yr ysgol ar ddydd Mawrth olaf yr hanner tymor gyda disgyblion Blwyddyn 7 i 10 i gyd yn cael blas ar weithgareddau gwahanol i wersi arferol. Bu'n rhaid i ddisgyblion Blwyddyn 11 a myfyrwyr Blwyddyn 13 barhau i weithio mewn modd mwy traddodiadol!

Bu disgyblion Blwyddyn 11 mewn gweithdai Mathemateg dan arweiniad eu hathrawon i'w paratoi at yr arholiadau ffug ac allanol . Cafodd fyfyrwyr Blwyddyn 13 amser i fwrw ati gyda'u projectau unigol sy'n cyfri am 50% o'u cymhwyter Bac. Dyma broject heriol iawn sy'n gofyn iddynt ysgrifennu 5000 o eiriau am destun sy'n berthnasol i'w cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd rhaid yn ymchwilio i destunau amglycheddol fel pŵer niwclear a gwastraff plastig ac eraill yn edrych ar destunau cymdeithasol fel sefyllfa'r Iaith Gymraeg neu'r twf mewn gwleidyddiaeth eithafol. Diwrnod buddiol i bawb felly.

'Yr Ynys' oedd thema diwrnod Blwddyn 7 a bu'n rhaid iddynt ymateb i'r her o greu ynys eu hunain – cyfle i ddatblygu a denfyddio eu dychymyg a'u creadigrwydd. Bu'n rhaid iddynt ddatrys problemau hwyliog fel tîm yn y neuadd chwaraeon ar ddechrau'r diwrnod gan smalio eu bod wedi cyrraedd ynys anhysbell. Yna, cawsant gyfle i greu anthem gerddorol, i lunio map, actio mewn sgets o flaen y sgrin werdd a chyfrifo costau eitemau angenrheidiol ar gyfer goroesi ar ynys bellennig. Diwrnod llawn cydweithio, trafod a mwynhau.

Bu disgyblion Blwyddyn 8 dan arweiniad myfyrwyr Blwyddyn 12 dan y thema 'Syrcas Sgiliau'. Syniad y diwrnod oedd dechrau cael y disgyblion i feddwl am sut fywyd hoffen nhw yn y dyfodol a pha swyddi hoffen nhw eu gwneud. Yna, aethpwyd ati i drafod y sgiliau trosglwyddadwy hynny sydd eu hangen yn y byd sydd ohoni – sgiliau fel cyfathrebu, datrys problemau, rhifedd a llythrennedd. Roedd dros 12 stondin o weithgareddau bywiog a rhyngweithiol yn y neuadd i'r disgyblion eu cwblhau wedyn dan ofal a llygad barcud myfyrwyr Blwddyn 12. Ffocws pob gweithgaredd oedd datblygu'r sgiliau hynny sydd mor angenrheidiol i lwyddo. Roedd y diwrnod yma'n lladd dau dderyn gan fod Blwyddyn 12 hefyd yn cwblhau rhan o'u gwaith 30 awr ar gyfer Her y Gymuned.

E-ddiogelwch oedd thema diwrnod disgyblion Blwyddyn 9 eleni. Rhannwyd y flwyddyn i ddosbarthiadau llai a gosodwyd y sialens iddynt gydweithio fel grŵp ar greu fideo i egluro a hybu e-ddiogelwch i ddisgyblion iau. Roedd ymateb y disgyblion yn frwdfrydig a chreadigol a bu'r diwrnod yn gyfle i bawb ddysgu mwy am sut i ddefyddio'r we yn ddiogel. Cafwyd prynhawn difyr wedyn yn gwylio cynnyrch pawb.

Fel disgybl ysgol mae'n hawdd iawn anghofio am heriau a realiti'r byd tu allan. Dyma oedd cefndir y diwrnod a drefnwyd i ddisgyblion Blwyddyn 10 sef 'Mentergarwch' – diwrnod iddynt feddwl tu allan i'r bocs ac ymateb i her yn y byd go iawn. Roedd rhaid iddynt gydweithio mewn grwpiau ar greu a datblygu syniad i hel pres i elusen lleol. Roedd rhaid trafod a dewis y syniad gorau ac yna pwyso a mesur cryfderau a gwendidau'r prif syniad. Yna, roedd rhaid datblygu a chostio'r syniad a chreu cyflwyniad 'Den y Ddraig' o flaen aelodau Uwch Dîm Rheoli'r ysgol. Cafwyd canmolaeth uchel i'r syniadau a'r cyflwyniadau graenus.

Diolch i chi gyd am eich gwaith galed a gobeithiwn yn fawr eich bod wedi mwynhau!







## PREMIERE CYFRES NEWYDD DEIAN A LOLI



Bydd plant drwy Gymru benbaladr yn falch iawn o glywed bod y gyfres newydd o Deian a Loli ar fin cyrraedd y sgrin - a hynny gyda chast newydd sbon!

Efeilliaid direidus ydi Deian a Loli, sy’n medru rhewi eu rhieni i’r unfan a gwneud eu hunain yn bitw bach. Ers pan ddarlledwyd y gyfres gyntaf yn ôl yn 2016, mae Deian a Loli wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gan gydio yn nychymyg plant Cymru.

Cwmni Da yng Nghaernarfon sy'n gyfrifol am y gyfres - a gipiodd y wobr am y Rhaglen Blant Orau yng ngwobrau BAFTA Cymru y llynedd. Hon fydd y drydedd cyfres, ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer y bedwaredd cyfres, fydd yn cael ei ffilmio yn haf 2019.

Ond i’r rhai sydd ddim yn gallu aros i weld y penodau newydd ar S4C, bydd cyfle ecsglŵsif i gael blas o rai ohonynt mewn rhagddangosiadau arbennig dros gyfnod y Nadolig yn Pontio, Bangor. Mae disgwyl y bydd cyffro a galw mawr am docynnau ar gyfer y digwyddiadau hyn; pan gynhaliwyd rhagddangosiadau tebyg y llynedd, diflannodd dros 800 o docynnau o fewn ychydig oriau! (Mae’r tocynnau ar gyfer Pontio wedi bod ar gael ers 16 Tachwedd, felly mae’n debyg ei bod yn rhy hwyr I archebu bellach)

Bydd Pontio yn cynnal 3 dangosiad - gyda sesiwn gwestiwn ac ateb gyda’r cast i ddilyn y dangosiad cyntaf.

Yn cymryd rhan yn y sesiwn gwestiwn ac ateb yn Pontio fydd yr actorion newydd Gwern Rhys Jones o Lanrug (Deian) a Lowri Anes Jarman o Lanuwchllyn (Loli) ynghyd â’r cyfarwyddwr (Martin Thomas) a Rhian Blythe (Mam) a Simon Watts (Dad).

Dywed Angharad Elen, cynhyrchydd y gyfres, "Dw i’n edrych ymlaen yn fawr i weld ymateb y gynulleidfa i’r Deian a Loli newydd, ac i’r straeon newydd. Bydd yr gyfres newydd yn gweld yr efeilliaid direidus yn cyfarfod môr-forynion, cewri, ystlumod a chonsurwyr ac yn mynd ar anturiaethau rhyfeddol o dan y ddaear, i lawr cefn y soffa ac i wlad llawn hufen iâ.”

Bydd y gyfres newydd yn dechrau ar S4C ar 2 Ionawr 2018 am 7:45am.

## Calendr i godi arian




Mae Elgan Jones, Waunfawr wedi cynhyrchu calendr lliwgar ar gyfer 2019, sef Calendr Eryri. Mae ar werth am £12, ac y mae 20% o’r gwerthiant yn cael ei gyflwyno i Dim Achub Mynydd Aberglaslyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Elgan ar 07771756345 neu www.elganjones.com

## BLODAU’R NADOLIG

### Poinsettia

Dyma’r adeg pan fyddwn yn cael blodau lliwgar ar gyfer y tŷ, ac yn eu plith Poinsettia sydd erbyn hyn i’w cael â dail coch, pinc, gwyn neu wyrdd golau. Maen nhw’n blanhigion tymhorol sy’n anodd eu cadw ar ôl misoedd y gaeaf. Am eu bod yn dod o’r trofannau, mae gwres canolog yn eu sychu, hefyd mae’n gas ganddyn nhw ddrafft.

### Syclamen

Mae dau fath o Syclamen, y rhai bach, sy’n tyfu yn y goedwig (llysiau’r ddidol) a’r rhai mwy (syclamen Persicum) sy’n cael eu codi yn aml ar gyfer y farchnad Nadolig. Mae angen golau arnyn nhw ond nid haul cryf. Cadwch nhw’n llaith heb fod yn rhy wlyb.

### Amaryllis

Dyma flodyn sydd ag arogl hyfryd; mae’n lliwgar ac yn hawdd i’w dyfu. Mae’n dechrau tyfu pan fo’r compost yn gynnes ac yn llaith. Os ydych yn ofalus ohono, gall flodeuo am flynyddoedd.



# Copr, Llechen a Charreg

Mae golygfeydd trawiadol o olion chwarel Dinorwig yn ganolbwynt i waith yr artist James Naughton mewn arddangosfa ym Mhlas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog ar hyn o bryd.

Trwy ei ddawn arbennig i ddal effaith goleuni naturiol ar liwiau adawyd ar y tirwedd gan olion gorffennol diwydiannol gogledd Cymru, mae James yn llwyddo i greu naws hudolus yn ei baentiadau.

Yn yr arddangosfa yma, sy'n dwyn y teitl 'Copr, Llechen a Charreg, mae James wedi canolbwytio ar chwarel lechi Dinorwig, cloddfa gopr Mynydd Parys a dwy chwarel ger Trefor a Nefyn ar arfordir gogleddol Pen Llŷn.

Mae'r safleoedd dan sylw yn cynnig cyfle i brofi harddwch unigryw ynghyd a phrofi amrywiaeth y byd sydd o'n cwmpas, effaith treigl amser ac ymdrechion anhygoel dynoliaeth. Trwy gael ein hamgylchynu gan y tir hynafol, mae ymddangosiad y chwareli a'r cloddfeydd yn creu ymdeimlad hynafol ac yn tanio'r dychymyg.

Does dim amheuaeth bod cyfnod pan 'roedd y safleoedd yma yn edrych yn wahanol iawn i'w hamgylchedd naturiol ond gallwn edrych ar eu strwythr a'r modd y maent yn dynwared natur yn y strata angenrheidiol i godi y deunyddiau crai. Mae trefn briodol i hyd yn oed y gwastraff sydd yn ymddangos fel ei fod wedi ei waredu ar hap.

Mae'r meddyliau a'r myfyrdodau yma yn treiddio i baentiadau James a'r paentio yn fodd iddo gofnodi ei brofiad.

Mae James Naughton yn arddangos yn y Plas ochr yn ochr ag artist o Lerpwl sef Deborah Butler, arddangosfa Arloeswyr Pop Cymraeg sydd yn brosiect celfyddyd gain yn dal rhai o arloeswyr canu pop, roc, gwerin ac adloniant trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn yr 1960au a'r '70au ynghyd a gwaith cymysg gan artistiaid yr oriel.

Bydd yr arddangosfa ymlaen hyd Rhagfyr y 24ain ac mae'r oriel ar agor pob dydd heblaw dydd Mawrth. Er mwyn gweld y lluniau ac am fwy o wybodaeth am yr arddangosfa, ymwelwch a'r wefan www.oriel.org.uk.









## LLANRUG Eryl Roberts, Peris,56 Glanffynnon (675384)

# Ysgol Gynradd Llanrug




**Diolchgarwch**
Gwasanaeth Diolchgarwch y Cyfnod Sylfaen. Pawb wedi dysgu eu gwaith yn arbennig.
Diolch i Sian Beca am ddod i ddarllen rhannau o wahanol lyfrau i ennyn brwdfrydedd. Cafodd y plant lawer o hwyl yn actio!!
Cofiwch cewch fenthyg llyfrau o bob lliw a llun yn y llyfrgell yng Nghaernarfon.





**Diwrnod Golchi**
Blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau gweithgareddau Diwrnod Golchi yn Amgueddfa Lechi Llanberis.

**Diwrnod prysur**
Pawb wedi mwynhau gweithgareddau Diwrnod Meddylfryd o Dwf. Pawb wedi dyfalbarhau drwy'r dydd.Da iawn chi.







**Ymweliad Y Fran Wen**
1 a 2 yn mwynhau sioe Cwmni Fran Wen-Twrw Dan a Dicw

**Sioe Buddug**
Plant Blwyddyn 3 a 4 wedi mwynhau sioe wych Mewn Cymeriad o Buddug!

**Plant mewn Angen**
Plant Meithrin a Derbyn yn mwynhau diwrnod Plant mewn Angen.

# *Parhad* LLANRUG

**Er cof**

Cofion annwyl iawn am Emma Bernard a fuasai'n 48 oed ar Ragfyr y 7fed.
"Hebddo ti yn gwmnïaeth,
Dim ond môr sy'n treiglo'r traeth"
Cariad xx Mam, Dad, Louise a'r teulu i gyd.

**Cyfarchion Nadolig**

Mae Megan Williams, Bron Eryri, yn anfon cyfarchion llawen y Nadolig a dymuniadau gorau am 2019 i'w chymdogion a'i ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

**Plaid Cymru**

Clwb Cant - Enillwyr Mis Tachwedd

1... Arwyn Roberts, Hafle

2... Einir Gwyn, Gwel Elidir, Cwmyglo

**Priodas Aur** Llongyfarchiadau mawr i Selwyn a Vera Jones, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Deallwn iddynt ddathlu gyda phryd o fwyd arbennig gyda'r teulu.

**Marwolaethau** Ar yr ugeinfed o Hydref, ym Manceinion, bu farw Mrs Catherine Nolan (Owen gynt)a aeth i Fanceinion yn dilyn ei phriodas yn 1943. Roedd â chariad mawr tuag at ei Chymraeg a Llanrug yn enwedig, ac yn derbyn yr Eco bob mis gan ei chwaer, Mair Wyn, Talybont.

Dymuniad y teulu oedd i gofnodi ei marwolaeth yn yr Eco. Bydd yn golled fawr i'w phlant, wyrion, wyresau a gor-wyresau ac, wrth gwrs, i Mair, Gwyn ac Allan, ei chwaer a'i brodyr. Ei dymuniad hi oedd cael y Draig Goch at ei harch.

Yn 8 Nant y Glyn, bu farw Mike Jones, gŵr annwyl Ann a thad Mark. Cydymdeimlwn â chwi yn eich profedigaeth fawr. Roedd parch mawr iddo fel cefnogwr a chyn swyddog Clwb Pêl-droed Caernarfon ac fe gaed munud o dawelwch er cof amdano cyn y gêm ddydd Sadwrn, 17 Hydref.

Yn dawel yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty bu farw Karon Pritchard, 60 Glanffynnon, yn 57 mlwydd oed.

Mam annwyl Gwenno a Siôn, Gethin ac Elin a Robin. Merch i Katherine a Syd Tyrell, chwaer i Einir ac Iwan a merch i'r diweddar Ron a'i wraig Helen. Merch-yng-nghyfraith Meirion a Rhian Pritchard, Nant Peris. modryb annwyl a ffrind arbennig i Ann.

Cafwyd gwasanaeth i ddathlu ei bywyd yng Nghapel y Rhos dan ofal y Parch Marcus Wyn Robinson. Roedd y capel yn llawn o'i theulu a ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr, oedd yn dyst i'w phoblogrwydd gan bawb. Colled anferth ar ei hôl.

**Er Cof am Karon**

Mae Karon yn ein calonnau a'i gwên
yn gynnes fel golau
braf yr haf am iddi fywhau
ein taith â'i chariad hithau.
Bryn Jones

Estynnwn ein cofion hefyd at Hefin a Linda, Pantmwyn, yn eu profedigaeth o golli brawd-yng-ngyfraith, Cecil Jones o Gonwy (Llanberis gynt).

**Capel y Rhos Oedfaon Rhagfyr**

Rhagfyr 2 – Y gweinidog y Parch. Marcus W. Robinson

Rhagfyr 9 – Parch. Harri Parri

Rhagfyr 16 – Oedfa'r Nadolig

Rhagfyr 23 – Parch. Dafydd Coetmor Williams

Rhagfyr 30 – Cyfarfod Gweddi

**Merched y Wawr** Nos Fawrth, Tachwedd 13, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau a chychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Anfonir ein cofion anwylaf at Menna a'n dymuniadau gorau iddi. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Meirwen yn diolch am yr holl waith ar achlysur ei hurddo yn y Bae. Roedd cael aelodau o'r gangen yn rhan o'r Swper a drefnwyd gan y Rhanbarth yn arbennig iawn. Mae cyfanwaith Dafydd ac Eirianwen ar ran y gangen wedi cael lle arbennig yn ei chartref, anrheg unigryw dros ben. Diolchir i Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y gangen, am yr adroddiad manwl yn yr Eco. Dymunir rhwydd hynt i Meirwen fel Llywydd Cenedlaethol y Mudiad.

Er mwyn cyfoethogi a bywiogi'r arlwy ar gyfer y flwyddyn nesaf dymuna Mary Roberts, Llywydd Rhanbarth Arfon, i ni aelodau ddod â syniadau ymlaen am weithgaredd y gall pob un o aelodau Rhanbarth Arfon fod yn rhan ohono a hynny heb orfod treulio llawer o amser nac ychwaith yn golygu llawer o gost - digwyddiad megis siaradwyr gwadd yn trafod llwyddiant merched ym myd busnes, paneli holi ac ateb ar bynciau cyfoes, isoe ffasiwn, noson gaws a gwin neu gellir cynnal prosiect megis casglu hanesion lleol, teithiau cerdded y mannau diddorol lleol i ymweld â hwy ayb. Trafodwch ymysg eich gilydd ac anfonwch eich syniadau i Mary.

Ar ran Gwersylloedd Haf yr Urdd derbyniwyd llythyr gan Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, yn holi a fuasem yn barod i helpu i sicrhau fod mwy o blant a phobl ifanc Cymru yn cael y cyfle unigryw i ymweld â'r gwersylloedd. Mae "Cronfa Cyfle i Bawb" yn chwilio am gyfranwyr, "Gwersylloedd Haf 2019". Yn anffodus nid yw pob plentyn yn cael y profiad o wyliau haf. Mae'r Urdd am sicrhau fod yna gyfle i bawb i greu atgofion o wersyll haf, beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau ariannol. Gofynnir yn garedig am nawdd o £160 i dalu am drafnidiaeth, llety, gweithgareddau a bwyd unigolyn am gyfnod o 5 niwrnod yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Glanllyn neu Gaerdydd. Mae modd noddi lle i blant yn ein hardal ni, sef Llanrug a Phenisarwaun. Cytunwyd i noddi plentyn o'r dalgylch gan roddi i'r unigolyn brofiad bywyd, magu hyder a ffrindiau oes ac atgofion fydd yn aros gyda ef neu hi am byth.

Cytunwyd i ofalu am Gaffi'r Urdd yn Ysgol Brynrefail ar 9fed o Fawrth.

Gwraig wadd y noson oedd neb llai na Pat Jones, Brynrefail, un sy'n gallu troi ei llaw at unrhyw beth, boed yn grefft, peintio neu osod blodau. Fe gawsom noson hwyliog yn creu dyn neu ddynes eira. Cafodd pawb hosan wen, hosan batrymog liwgar, reis, botymau, glud, lastig, siswrn a phin ffelt du. Bu pawb yn brysur yn llenwi'r hosan wen hefo reis, lastig am y canol a'r pen, darn o'r hosan amryliw fel cap a botymau lliwgar fel botymau. Yna ffelt du fel llygaid trwyn a cheg a darn bach o'r hosan liwgar fel sgarff - a dyna hi - dyn neu ddynes eira arbennig o ddel a phawb wedi gwirioni hefo'r ffrind newydd. Diolchwyd i Pat am noson hynod ddiddorol a chreadigol. Diolch i Heulwen, Haf, Carolyn, Iris ac Eirian am y baned. Enillydd y raffl oedd Ann Thomas. Ar Ragfyr 11eg cynhelir Cinio Nadolig y gangen yn Y Felin - pawb i fod yno erbyn 7.00.

**CYNGERDD ADFENT**

*gyda –*

**CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS**

ac eitemau eraill

Yng Nghapel y Rhos, Llanrug
Nos Sul, Rhagfyr 9fed 2018
Am 7 yr hwyr
Tocyn £5 oedolyn £1 plant
Yr elw at gael DIFFIBRILWR
i bentref Llanrug

# Chwarter Canrif Galwad Cynnar

I nodi pen blwydd y rhaglen natur boblogaidd Galwad Cynnar, mae Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi cyfrol hardd sy'n dathlu cynefinoedd Cymru.

Mae Galwad Cynnar wedi bod yn diddanu naturiaethwyr Cymru am 25 mlynedd bellach, gan godi ymwybyddiaeth o gyfoeth naturiol unigryw ein gwlad. Yn ôl Tudur Owen, sy'n un o'r gwrandawyr selog, 'Er fy mod i'n pryfocio'r criw weithia gan ddweud mai hon yw ail raglen orau BBC Radio Cymru, dwi'n credu bod Galwad Cynnar yn un o'n trysorau cenedlaethol bellach.'

Y cynhyrchydd a fu wrth y llyw yn hirach na 'run arall, Aled P. Jones, sy'n ein llywio drwy'r cyfan gan roi cip bach i ni ar sut yr oedd pethau y tu ôl i'r llenni, a rhannu rhai o gyfrinachau'r teithiau recordio allanol (gan gynnwys y trafferthion technegol!). Mae Gerallt Pennant, y cyflwynydd dihafal, a hoelion wyth y rhaglen, hefyd yn cyfrannu i'r llyfr, gan roi eu hargraffiadau personol o fod yn rhan o raglen mor eiconig â Galwad Cynnar.

Yn plethu'r cyfan at ei gilydd mae ffotograffau trawiadol Aled, fu'n cofnodi pob taith a sesiwn recordio yng nghwmni'r arbenigwyr.

O blanhigion prin i adar môr, o wenyn i wyddoniaeth – mae'r cyfan yma!

- Mae 12 o leoliadau y bu i'r criw darlledu'n fyw ohonynt yn cael eu cynnwys yn y gyfrol, yn cynnwys ynysoedd Enlli a Sgomer, chwarel Minera ger Wrecsam a chorstiroedd. Un o'r mwyaf trawiadol yw Sarn Badrig, y rhan honno o wely'r môr sy'n dod i'r golwg o dro i dro oddi ar arfordir Ardudwy.
- Ceir cyflwyniad i'r penodau hyn ac i wreiddiau'r gyfres gan Aled P. Jones, y cynhyrchydd fu wrth y llyw am 17 o'r 25 mlynedd.
- Mae yn y gyfrol gyfraniadau gan rai o'r arbenigwyr sydd wedi bod yn greiddiol i lwyddiant y gyfres, megis Iolo Williams, Bethan Wyn Jones, Twm Elias a Duncan Brown.
- Mae'r gwrandawyr yn anfon lluniau cwestiynau a sylwadau i'r rhaglen yn fynych, a cheir enghreifftiau o'r rheiny yn y llyfr hefyd – yn cynnwys rhai o luniau hynod Keith O'Brien o Drawsfynydd.
- Mae'r gyfrol yn lliw llawn, gyda chlawr caled.

Cynhaliwyd noson i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol yng Nghlwb Iotio Caernarfon, ddiwedd Tachwedd yng nghwmni Gerallt Pennant a rhai o gyfranwyr rheolaidd y rhaglen.

# Un funud fach ...

**POBL YW EGLWYS**

Ddeugain mlynedd yn ôl, pwy fyddai wedi medru dychmygu y byddai mwyafrif y boblogaeth yn cario ffôn i bobman, y byddem yn chwilio am wybodaeth 'ar y we' yn hytrach nag yn y llyfrgell, ac y byddem yn sôn am y posibilrwydd o geir heb yrwyr? A phwy hefyd a fyddai wedi dychmygu y byddai yma, yng ngogledd orllewin Cymru, ac yn ardal y chwareli, fwy nag un pentref heb yr un capel? Ddeugain a hanner can mlynedd yn ôl, roedd y capeli'n britho'r tir. Gallai amryw o'n pentrefi hawlio hanner dwsin a mwy ohonynt, yn cynnwys o leiaf un capel o'r pedwar enwad anghydffurfiol. Daeth tro mawr ar fyd, ac erbyn heddiw nid peth dieithr yw pentref heb gapel.

Mor drist yw sylweddoli mai'r diweddaraf o'r pentrefi hynny yw Deiniolen. Ddechrau mis Tachwedd, cynhaliwyd yr oedfa olaf yn Ebeneser. Mae'r capel a'r festri wedi eu gwerthu erbyn hyn, a gellid dweud 'nad oes neb yn mynd i'r capel yn Neiniolen bellach'. Ond nid dyna'r gwir chwaith gan fod gwaith y capel yn parhau. Mae aelodau Cefnywaun ac Ebeneser yn dal i gyfarfod bob Sul er mwyn addoli Duw a chyhoeddi'r Efengyl, ond ein bod yn gwneud hynny erbyn hyn yn y llyfrgell yn Nhŷ Elidir ar y Stryd Fawr. Mae rhai ohonom yn dal i ddweud ein bod yn 'mynd i'r capel' ar nos Sul. A da hynny, gan ei fod yn arwydd ein bod yn deall mai'r addoliad sydd bwysig a'i fod yr un mor ddilys, a'r un mor werthfawr – i ni ac i'r Brenin Mawr – lle bynnag y digwydd.

Nid oes angen bod yn broffwyd i ragweld y digwydd yr un peth mewn pentrefi a threfi eraill dros y blynyddoedd nesaf. Ac er mor drist yw gweld drysau capeli ac eglwysi'n cau, ni fydd y cau hwnnw o reidrwydd yn golygu diwedd y dystiolaeth Gristnogol yn y cymunedau hynny. Gallwn addoli heb gapel; ac nid oes raid wrth adeilad pwrpasol er mwyn rhannu'r newyddion da am Iesu Grist. Gwir y gair, 'nad adeilad, ond pobl, yw eglwys'. Pobl sy'n credu yn Iesu Grist; pobl sy'n perthyn i'w gilydd trwy eu ffydd yn Iesu Grist yw eglwys. Sefydlwyd llawer o'n heglwysi mewn tai ac ysguboriau. Codwyd y capeli er mwyn i'r eglwysi hynny gael llefydd hwylus i gyfarfod ynddynt. Am wahanol resymau, mae llawer o'r capeli hynny wedi diflannu erbyn hyn. Ond rwy'n gwbl hyderus y byddai'r bobl a'u cododd yn deall yn iawn y rheidrwydd a deimlwn heddiw i symud yr oedfaon i le newydd (ac yn ein hachos ni yn Neiniolen, i'n cartref newydd yn Nhŷ Elidir) gan mai'r peth pwysig yw ein bod yn cyfarfod yn enw Iesu Grist i addoli Duw yn nerth yr Ysbryd Glân.

Mae'n braf cael dweud na ddaeth y gwaith yn Neiniolen i ben. Ar un ystyr, nid wedi cau y mae'r capel ond wedi symud gan llath ar hyd y Stryd Fawr i Dŷ Elidir. Mae croeso i chi ymuno â ni unrhyw Sul, am 5.00 o'r gloch (neu am 3.30 o'r gloch ar y Sul cyntaf o bob mis).

JOHN PRITCHARD

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
CWÔT DI DA
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Cais am Newyddion** Pe baech chwi, fel unigolyn/ Cymdeithas/ criw neu enwad, yn hoffi cynnwys unrhyw eitem o Newyddion sy'n berthnasol i'r pentref, yn yr Eco, gyrrwch ef i mi drwy alwad ffôn, llythyr neu ebost.

**Hanes Lleol o Ddiddordeb Mawr** Cyflwynwyd holl gasgliad y diweddar hanesydd Gwilym Roberts, Fron Olau, Llanberis, i ofal y Ganolfan gan ei fab, Elwyn. Hoffem ddiolch i Elwyn am ei garedigrwydd ac am roi cyfle i drigolion a phlant yr ardal gael golwg ar gasgliad anhygoel ei dad. Bydd modd i unrhyw un ymweld â'r Ganolfan, i gael golwg ar holl gasgliad a gwaith ymchwil anhygoel a thrylwyr Gwilym, drwy gysylltu â gofalwr neu un o swyddogion y Ganolfan.

**Diolchiadau** Dymuna teulu'r diweddar Donald (Don) Fraser, 6 Maes Padarn, Llanberis, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, trwy ymweliad/ cerdyn a galwad ffôn, a dderbyniwyd ganddynt. Mae eu diolch arbennig yn mynd i Gwynfor Jones a'i gydweithwyr am eu caredigrwydd a'r trefniadau trylwyr. Diolch hefyd i'r Gwasanaeth Ambiwlans am eu hymateb cyflym.

Bydd yr arian a dderbyniwyd er cof am Don yn mynd tuag at weithgareddau'r Ambiwlans Awyr.

**Eglwys Sant Padarn** Bydd Te Parti hefo Siôn Corn ar y 4ydd o Ragfyr, rhwng 3.30 a 5 o'r gloch - £2 i blant o dan 12 oed! Mi fydd Cystadleuaeth Gwneud Cerdyn Nadolig yno hefyd. Am docynnau, ffoniwch 07867982518 neu 01286 871423.

**Cyngerdd Nadolig** Oherwydd nad yw'r Oriel ar gael y Nadolig yma, bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol, gyda Band Deiniolen a Chôr Dyffryn Peris, yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Padarn ar brynhawn Sul, Rhagfyr 16eg. Ceir manylion llawn yn yr hysbyseb sydd yn yr Eco yma.

**Cymdeithas Undebol Capel Coch**

Rhagfyr y 4ydd: y Prifardd Myrddin ap Dafydd

Ionawr yr 8fed: Oedfa Ddechrau'r Flwyddyn hefo'r Parchedig John Pritchard

Ionawr y 15fed: Noson hefo Rolant Wyn.

**Diogelwch disgyblion Ysgol Dolbadarn**

Yn rhifyn Hydref o'r "Eco" adroddwyd fel yr oedd pont droed newydd yn cael ei hadeiladu ar draws afon Goch er mwyn hwyluso a diogelu mynediad rhieni a phlant o Ffordd Tŷ Du a Glanrafon i Ffordd Capel Coch ac felly'n osgoi cerdded y Stryd Fawr a'r rhan ddi-balmant at fynedfa'r ysgol.

Ond mae'n ymddangos mai prin yw'r defnydd ohoni, gyda rhieni yn mynnu gyrru eu ceir i fyny Ffordd Capel Coch a pharcio yn ddiystyrlon. Mae hyn wedi ysgogi y Cynghorydd Kevin Morris Jones i anfon llythyr at bob rhiant. Ynddo, meddai "Y dydd o'r blaen cafwyd sefyllfa o ddamwain a fu bron a digwydd y tu allan i Ysgol Dolbadarn. Oherwydd fod ceir wedi eu parcio ar waelod y lôn o flaen yr ysgol, ac ar y llinellau igam-ogam, bu bron i blentyn bach gael ei daro i lawr."

Mae'n mynd ymlaen i apelio ar y rhieni "i beidio a pharcio ar y llinellau igam-ogam i sicrhau diogelwch y plant."

Ac i ddod yn ôl at y bont newydd: "Hoffwn eich annog i ddefnyddio'r sustem unffordd wirfoddol.... a'r bont newydd y buom i gyd yn ymladd yn gryf amdani – ac mae cerdded i'r ysgol yn iachach i bawb."

Beth ydi'r hen ddywediad hwnnw am glustiau i wrando....?

**Gwasanaethau Capel Coch**

*RHAGFYR*

2ail am10yb: Parch Gwynfor Williams; 5yh: Parti Bytholwyrdd
9fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
16eg am 10yb: Y Gweinidog
23ain am 10yb: Gwasanaeth Nadolig y Plant
25ain am 10yb: Oedfa Gymun Nadolig
30ain am 10yb: Mr John Roberts

*IONAWR*

6ed am 10yb: Parch. Huw Pritchard
13eg am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
20fed am 10yb: Mr Richard Lloyd Jones
27ain am 10.30yb: Oedfa Deulu




Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

CSL
GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM

Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# Ar ben arall i'r lein

## Adroddiad y Cadeirydd

Wrth edrych yn ôl ar y tymor, mae'n debyg bod y tywydd wedi cael effaith mawr ar ein dyfroedd a'n ymdrechion gyda'r enwair eleni. Pwy gofia bellach Rhaeadr Mawr Llanberis wedi rhewi'n gorn ym mis Mawrth a phobl yn tyrru i dynnu llun o'r rhyfeddod? A gwynt iasoer y "Bwystfil o'r Dwyrain" a grinodd ddail cynta'r gwanwyn. Prin bu cynnig ar yr afon na'r llynnoedd yn yr wythnosau cynnar, ond wrth i'r oerni gilio bu llwyddiant efo'r brithyll i rai oedd yn pysgota Llyn Padarn ar ein cychod, ac ar Nantlle a Cwellyn. Roedd yr Afon Seiont hefyd yn parhau i wella yn ôl y pryfetach toreithiog oedd i'w gweld, a'r pysgod a ddaeth i law.

Ond cynhesu go iawn wnaeth hi wedyn. Cafwyd lli bach ar ddechrau Mai, ond dim dŵr i bob pwrpas wedyn am bedwar mis. Segur oedd genweiri'r fro a'r rhan fwyaf o'r genweirwyr wedi anghofio am 'sgota am fisoedd hir o'r tymor, a'r gwres yn llethol. Ym Mhenllyn roedd yr afon bron yn sych. Yng Nghwm y Glo roedd posib gosod genwair efo'r rîl ar y graean ar ochr Stablau o'r afon a'i blaen ar ochr Cwm, a gweddillion yr afon yn lithro oddi tani. Yn syndod, roedd dyfalbarhad ar fin nos wedi dod â 'sgodyn yma ac acw i ambell aelod. Ac yn Rhyd Ddu ,doedd yr uchder ddim yn ddigon i rwystro'r gwres rhag effeithio ar Lyn y Dywarchen. Mae brithyll yr enfys yn ôl y sôn yn addasu'n well at dymheredd uwch ond roedd hi'n eithaf tawel yn fanno hefyd yn ystod y dyddiau poethaf. Ar y Llyfni bu rhaid disgwyl, ond at ddiwedd yr haf, ac er prinder dŵr, daeth y sewin i'r pyllau ger y môr, ond nid oeddant yn gafael cystal ag arfer. Ambell noson roedd cymaint o bysgod i'w clywed yn codi a neidio fel bod rhywun yn sicr bod sgotwr cyfagos yn sownd ond rhyw un yma ac acw oedd y daliadau.

Ond daeth diwedd ar y gwres, a stormydd ym mis Medi, a'r pysgota'n gwella. Mae pysgod Dywarchen eleni wedi eu cyflenwi o Drawsfynydd, a safon y brithyll enfys a'r brithyll glas yn eithriadol. Yn yr wythnosau diwethaf cafwyd daliadau cyson a physgota cyffrous o'r lan a'r cychod. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd llond dwrn o'r brithyll brown mwyaf o Crawia wedi eu rhoi yn y llyn, cyn y gwres mawr. Ni welwyd dim tan mis Medi pan ddaliwyd un dros chwe phwys gan aelod, er torri'r enwair wrth ymdrechu yn y frwydr. Ar Lyn Padarn daliwyd torgoch, ac mae'n braf clywed bod rhai yn amlwg wedi magu'n naturiol yn y llyn.

Uchafbwynt y tymor, efallai, oedd y sewin a ddaeth i'r Afon Seiont. Wedi blynyddoedd gwan yn dilyn llygredd, ymddengys bod ein sewin yn cynyddu. O ddechrau Medi roedd gwyniadau ar hyd yr afon. Roedd pysgota'r nos ar brydiau'n wefreiddiol, gyda rhai mân ambell waith ond hefyd pysgod dau a thri phwys yn cael eu dal gan aelodau hen ac ifanc, a diddordeb a brwdfrydedd mawr. Ar y lli roedd pysgod i'w dal yng ngolau dydd hefyd o Lyn Wisgin ar ben llanw hyd at Crawia. Mae'r cerrig mawr a osodwyd yn y pyllau er mwyn gwella'r cynefinoedd i bysgod mân wedi cael eu beirniadu gan ambell aelod sydd wedi colli gêr, ond tybed bod y cerrig yn plesio'r sewin sydd wedi aros ym mhyllau Crawia? Daliwyd un neu ddau da iawn, fel sydd i'w gweld ar ein gwefan, ac ar ein tudalen Facebook.

Ond tlawd iawn oedd hi efo'r eog. Mae'n bryd sylweddoli bellach bod y rhediadau hwyr sydd wedi bod yn rhan mawr o'n pleser ers degawdau wedi darfod dros ychydig flynyddoedd. Chwe mlynedd yn ôl roedd pysgod efo llau môr arnynt yn rhedeg hyd mis Tachwedd. Nid y Seiont yn unig sydd yn dioddef - mae gwefannau eraill yng Ngogledd Cymru wedi cynnwys lluniau eog yn ddiweddar, ond prin y gwelwyd un arian. Wrth ysgrifennu rwyf yn gwybod am ddau a ddaliwyd ar y Seiont, a dim sôn am lwyddiant ar y Gwyrfai na'r Llyfni. Coeliwch fi, mae rhai o'r afonydd enwocaf o Gymru i'r Alban wedi disgwyl yn ofer am ymddangosiad pysgod yr hi ydref. Efallai wir nad oes gan law dyn gymaint i'w wneud â'r peth chwaith - mae cofnodion yn awgrymu bod cylchdroi ym mhatrwm y rhediadau yn amlygu eu hunain, ond mae'n siomedig iawn ar hyn o bryd. Rydym wedi cydweithio efo gwahanol gyrff ar bob cyfle i wella'r afon ar gyfer claddu a magu, a clywn bod nifer dda o eog mân yn ein dyfroedd, ond mae rhywbeth mawr yn eu cadw rhag dychwelyd i'r afonydd.

Ond eto, ar adeg anodd fel hyn mae'n talu edrych o'n cwmpas er mwyn gwerthfawrogi a hybu'r gwahanol brofiadau y gall ein dyfroedd gynnig i'r pysgotwr. Rhwng y tywydd a tymhorau gwan i'r eog, bu llai o ddiddordeb yn ddiweddar. Mae trafod yr is-ddeddfau a bygwth gwneud lladd pysgod yn anghyfreithlon wedi gwaethygu'r sefyllfa a chlybiau drwy Gymru wedi gweld aelodaeth yn teneuo. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r aelodau sydd yn parhau i'n cefnogi drwy dalu aelodaeth llawn. Ac, wrth gwrs, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn hybu'r gamp ymysg ieuenctid y fro. Cafodd plant Ysgol Dolbadarn bleser mawr wrth wylio wyau'r torgoch yn datblygu a deor mewn tanc yn y dosbarth. Roedd y disgyblion yn ferw o ddiddordeb, yn wybodus a chwrtais, a braf oedd mynd efo criw ohonynt at lan Llyn Padarn yn y gwynt a'r glaw i ryddhau'r torgoch mân i'w cartref newydd. Yn ystod yr haf cafwyd diwrnod ar lan Llyn y Dywarchen efo plant Ysgol Syr Huw Owen a Chaergybi, gyda'r pysgotwr adnabyddus Charles Jardine a'r actor Julian Lewis Jones. Doedd yr haul tanbaid yn ddim help er mwyn dal ond cafwyd pnawn llwyddiannus. Noddwyd y diwrnod gan raglen "Pysgota i Ysgolion" gan y Countryside Alliance. Diolch i Gareth Evans, Ysgol Syr Huw, ac i'r ysgrifennydd am drefnu ac i'r aelodau ddaeth yno i gefnogi. Gobeithiwn wneud diwrnod eto yn 2019, ac mae tanc torgoch ar gyfer ysgol leol arall ar y gweill at y gaeaf. Mae'n cyfryngau cymdeithasol hefyd yn denu sylw'r ifanc - ein gwefan a'r dudalen Facebook - mae gosod llun diddorol yn tanio llu o gofnodion a sylwadau o fewn munudau, gyda sylw yn lleol ac ar draws y wlad, a holi am fanylion y sgota hefyd.

Bu gwaith clirio glannau'r Llyfni a'r Seiont, a phyllau enwog fel Llyn Garnage bellach yn brafiach i'w pysgota nag y buont ers sawl tymor. Dylid manteisio ar y gwaith a mynd ati i dorri ymhellach cyn dechrau'r tymor nesaf. Mae aelodau wedi cynnig helpu yn barod.

Tra bod aelodaeth yn wan, mae incwm Melin y Cim wedi cynnal y Gymdeithas eto eleni. Mae'r baich o redeg y felin wedi ei ysgwyddo ar ein rhan gan yr ysgrifennydd, ei wraig, a chriw bach o'r aelodau, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt, ond bydd angen sefydlu trefn mwy ffurfiol at y dyfodol, fel y trafodwyd yn ystod y flwyddyn. Os oes aelodau yn gwybod am rai fuasai'n medru helpu gyda'r glanhau a rhywfaint o'r gwaith trefnu (am gydnabyddiaeth, wrth gwrs) cysylltwch â'r ysgrifennydd.

Tynnwn sylw'r aelodau at y ffaith bod ein trysorydd, Mr. Gwyndaf Jones, Bethel, wedi rhoi rhybudd ei fod am roi'r gorau i'r swydd ar ddiwedd y flwyddyn, wedi gwaith di-flino ers ugain mlynedd - dros gyfnod sydd wedi gweld codi'r Felin a dileu llawer o'n dyledion. Rydym yn arbennig o ddiolchgar iddo am ei ymdrechion ar ein rhan. Ond os yw'r Gymdeithas am fanteisio ar y sylfaen ariannol gadarn yma mae'n hanfodol cael unigolyn arall i lenwi'r swydd at y dyfodol. Hoffem petai pob aelod yn ystyried camu i'r bwlch neu gynnig enw un sydd yn fodlon gwneud cyn gynted a sydd bosib. Gan ein bod yn gwmni, mae'n rhaid apwyntio trysorydd neu gau'r Gymdeithas.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau, y ddeorfa a'r cychod.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2018.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig ein dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2019.

Dr. Robin Parry

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Llanddeiniolen*

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 2ail Hydref 2018
Cofnodion Cyfarfod 4ydd Medi
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Clybiau Ieuenctid – Derbyniwyd ebyst gan Sion Bryn Roberts yn cadarnhau fod yna arian yn gronfa y clybiau ieuenctid fel a ganlyn:
Rhiwlas - £206.87
Bethel - £202.43
Penisarwaun £193.04
Penderfynwyd i'r clerc gysylltu a Sion i drefnu i drosglwyddo yr arian i'r Cyngor Cymuned gael ei roi at waith ieuenctid yr ardal.
Nodwyd efallai y buasai well i'r Cyngor feddwl am drosglwyddo yr arian i'r neuaddau pentref lle roedd y clybiau yn cyfarfod, ac lle roedd difrod a chostau wedi codi i'r adeiladau yn dilyn fandaliaeth. Bydd trafod pellach unwaith bydd yr arian wedi ei drosglwyddo.
Clwb Ieuenctid Deiniolen – Dywedodd Elfed Williams fod gan y clwb yn Neiniolen arian wrth gefn, ond ei fod angen i'r Cyngor Cymuned agor cyfrif dan eu adain yn enw Y clwb Ieuenctid. Dywedodd y clerc, er fod posib agor cyfrif arwahan, buasai rhaid holi ymhellach os oedd hyn yn gyfreithlon, ac be fuasai sefyllfa y cyngor gyda Awdit blynyddol drwy wneud hyn. Cytunwyd i holi ymhellach yn ein noson hyfforddiant hwyrach yn y mis.
Bin Baw Cwn Brynrefail – Dywedodd Martin Davies fod y bin wedi cael ei symyd o'r diwedd, a diolch i Cyngor Gwynedd am hynny.
A4244 – Cafwyd grynodeb o materion a drafodwyd yn dilyn cyfarfod ar y safle yn Brynrefail gan Martin Davies. Nid oes posib cael cyflymdra ar y ffordd lawr i 40 mya gan nad oes ty ar ochor y ffordd ei hun. Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod yn mynd i symyd y boleri sydd ger Snowdon View, a'u ail osod, ynghyd a rhoi stribyn coch ar draws y groesfan. Roedd cynllun i roi cysgodfan bws ar ochor y lon, ond gan y buasai angen lle tynnu mewn ynghyd a wal, bydd hyn yn amhosib oherwydd cost o 40K. Awgrymwyd cael lamp ychwanegol, neu symyd yr un sydd yno, ond gan mai yn ystod y dydd mae'r damweiniau yn digwydd, penderfynwyd na fuasai hynny yn cael dim effaith.
Arwydd Allt Ddu – Yn dilyn cysylltu ymhellach gyda Cyngor Gwynedd, fod y Cyngor Cymuned yn fodlon cyllido arwydd yn yr ardal, derbyniwyd ymateb bydd hyn yn bosib, cyn belled nad yw yn ymddangos fel arwydd swyddogol o adran Briffyrdd. Awgrymwyd hefyd efallai y buasai yn well i ni ystyried gosod "Bwrdd Arwydd Dehongliad" yn yr yr ardal yn hytrach na enw yn unig, ac efallai y buasai hwn yn gweddu yn well gyda'r amgylchedd naturiol, ac wrth gwrs yn rhoi hanes yr ardal i ymwelwyr. Penderfyniwyd cysylltu gyda Gareth Roberts am gyfarwyddid/ddyluniad ar arwydd a fyddai yn dderbyniol gan Cyngor Gwynedd.
Mainc Brynrefail – Derbyniwyd llythyr yn nodi bod yn amhosib symyd y Cerrig, a gyrrwyd map gyda 2 fan i allu symyd y fainc. Awgrymwyd i Martin fynd o amgylch y preswylwyr i ofyn lle buasent yn dymuno gweld y fainc.
Gohebiaeth a materion eraill
Gwaith Clytio Ffordd Pentre Helen – Mae'r gwaith o lenwi tyllau ar y lon yn y stad bellach wedi ei chwbwlhau. Mae gwaith dal yn mynd ymlaen yn Stad Rhydfadog.
CCG – Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yn Nhy Elidir gan y cwmni sydd yn bwriadu edrych ar y posibilrwydd o adeiladu 9 ty ar dir ger Maes Gwylfa.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
1 Cefn Gryddyn, Llanddeiniolen – Codi modurdy domestig Newydd yn nhy blaen yr eiddo Dim Gwrthwynebiad
Bryn Difyr, Bethel – Codi Ty Fforddiadwy a darparu llecynnau parcio Dim Gwrthwynebiad
Capel Libanus, Clwt y Bont – Newid defnydd capel segur i lety gwely a brecwast. Y cyngor yn cydweithio i ddod dros y broblem parcio ar y cais.
Rynys, Llanddeiniolen – Estyniadau, newidiadau a chodi modurdy/swyddfa Newydd Dim Gwrthwynebiad

Ceisiadau Ariannol 2018

Derbyniwyd 20 cais i law. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu y ciosg ffôn yn Rhiwlas bellach, ac mae Rhiwlas gyda cronfa ar hyn o bryd gan obeithio hel tuag at gael diffryblydd a'I osod yn y ciosg. Fodd bynnag, ame angen drws ar y ciosg. Derbyniwyd cais am ddrws, sydd ar gost o £288 a bydd costau gosod yn ychwanegol. Penderfynwyd gan mai Y Cyngor Cymuned sydd berchen y ciosg y buasai y gost yma yn dod allan o gyllideb Cynnal a Chadw y Cyngor, yn hytrach nac yn rhodd ariannol. Cytunwyd yn unfrydol i fynd ymlaen a hyn, a'r clerc i wneud trefniadau gyda Hefin Williams, sydd wedi bod yn gysylltiedig a'r ymholiadau ynglyn a chael drws ar y ciosg.

Penderfynwyd rhannu cyfranu fel a ganlyn i'r 19 cais arall:

£
Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen … 300.00
Eisteddfod Bentref Penisarwaun … 300.00
Eisteddfod Bentraf Bethel … 300.00
Pwyllgor Neuadd Penisarwaun … 300.00
Neuadd Bentref Rhiwlas … 300.00
Ysgol Feithrin Deiniolen … 150.00
Clwb Snwcer Deiniolen … 200.00
Clwb Bowlio Dan do Bethel … 200.00
Clwb Tenis Bwrdd Rhiwlas … 200.00
Clwb Rhiwen Rhiwlas … 200.00
Clwb Pensiynwyr Penisarwaun … 200.00
Seindorf Arian Deiniolen … 300.00
LLais Ogwan … 100.00
Eco'r Wyddfa … 300.00
Clwb Bro Bethel … 200.00
Cylch Ti a Fi Penisarwaun … 150.00
Clwb Pel Droed Ieuenctid Deiniolen … 200.00
Diffib Rhiwlas … 250.00
Diffib Deiniolen a Dinorwig … 250.00

Daw hyn a cyfanswm i fyny i £4400. Penderfynwyd dal £300 yn ôl, gan weithiau bydd ceisiadau anghyffredin yn dod i law. Os na ddaw, byddwn yn ychwanegu y swm yma tuag at ein cyllideb ceisiadau ariannol y flwyddyn nesaf.
O gwmpas y Bwrdd
Brynrefail – Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Martin Davies am y gwaith da mae wedi ei wneud dros y flwyddyn diwethaf yn Brynrefail. Wedi cyfnod o neb yn cynrychioli y pentref, mae Martin wedi ymgymeryd a'r gwaith ac yn weithgar tu hwnt gan geisio gwneud pethau i wella gwasaneuthau ac awyrgylch o fewn y pentref, ynghyd a ceisio sicrhau diogelwch i blant a phobl wrth groesi o un ochor i'r llall. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iddo ac yn gefnogol iawn o bopeth mae yn ceisio ei wneud.
Penisarwaun – Mae Wâl giat Mochyn, dros ffordd i Pen Pwll Coch ar lôn Perthi wedi disgyn. Cysylltu a Cyngor Gwynedd i gael ei ail gosod.
Rhiwlas – Llwybr Carreg y Garth tuag at y lon yn Parc, lle mae'r llwybr troed yn brysur. Yn ddiweddar mae nifer o wartheg wedi bod yn rhydd yn y cae, Nid yn unig fod hyn yn beryglus i gerddwyr, ond hefyd wedi difetha'r llwybr troed ac wedi gwneud yn beryglus i gerddwyr. Mae sawl cŵyn wedi dod i law fod y gwartheg wedi cerdded yn fygythiol at gerddwyr, wrth iddynt gerdded heibio. Y clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd ynglyn a hyn yn syth.



ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 16fed o Hydref 2018.

Ceisiadau am gymorth ariannol:

Penderfynwyd: Cyfrannu fel a ganlyn

Eco'r Wyddfa - £700

Y Sefydliad Coffa - £2100

Clwb ieuenctid Llanrug

Adroddwyd fod dau weithiwr ieuenctid wedi'i apwyntio. Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu cael tystlythyrau a thystysgrifau datganiadau troseddol ar eu cyfer.

Adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.

Cyllideb

Adroddwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllideb ddrafft, fydd yn golygu gostyngiad o 0.8% yn y grant i Gyngor Gwynedd, sydd yn un o'r setliadau gwaethaf drwy Gymru. Annogir i bawb lenwi holiadur ar lein er mwyn rhoi arweiniad/syniad i Gynghorwyr ble ddylai y toriadau cael eu gwneud. Mi fydd yn amser anodd oherwydd fod llawer o'r toriadau posib wedi eu gwneud yn barod.

Cynllunio

Cadarnhawyd fod y maes parcio yn ymyl Cibyn wedi cael ei ganiatáu.

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Mae'r Aelod Cabinet dros tai wedi penderfynu mae Cynghorwyr Cai Larsen a Berwyn Parry Jones fydd y ddau gynrychiolydd o Gyngor Gwynedd ar y Bwrdd.

Bysiau

Mae Gwynfor Coaches wedi eu penodi i redeg Gwasanaeth rhif 88. Ni dderbynwyd unrhyw gwynion hyd yn hyn.

Llifogydd

Anfonwyd luniau o'r llifogydd i erddi cefn Stryd y Llyn i swyddogion Cyngor Gwynedd. Mae'n ymddangos fod y bund yn rhy isel, yn enwedig ar y darn isaf yn ymyl y culvert, sydd yn achosi i'r afon orlifo.

Ysgol Cwm y Glo

Dim ond 6 o blant oedd ar y gofrestr ym mis Medi ac erbyn hyn mae rhain wedi dewis symud i ysgolion eraill. Felly does dim plant ar ôl yn yr ysgol. Y sefyllfa swyddogol yw fod yr ysgol dal ar agor. Os fydd llai na deg plentyn ar y gofrestr ym mis Ionawr, yna fydd camau yn cael eu cymryd i gau'r ysgol.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.

Gorchymyn i gau Ffordd Glanffynnon o 4 Tachwedd am 47 diwrnod.

Yn dilyn y rhybudd i gau Ffordd Glanffynnon er mwyn galluogi gwaith uwchraddio'r garthffos o dan y ffordd, gofynwyd i bennaeth yr ysgol gynradd gysylltu â'r cyngor sir i ofyn os fydd yn bosibl cael rhywun i helpu'r plant groesi ar Ffordd Llanberis dros cyfnod y gwaith.

Cronfa "Llanrug Poor House".

Adroddwyd fod bwriad y Cyngor wedi'i drafod gyda'r Comisiwn Elusennau a CCLA, sy'n gweinyddu'r gronfa a gyda Prif Athrawes yr Ysgol Gynradd ynglyn a ffyrdd o ddosbarthu'r arian. Penderfynwyd i baratoi ffurflen gais a nodiadau i rieni geisio am arian o'r gronfa.

Cronfa Apel Diffibriliwr

Adroddwyd fod y gronfa yn sefyll ar £1065 hyd yma gyda mwy o addewidion. Nodwyd fod cynrychiolydd o elusen ' Calon Cymru' am ddod i arddangos y gwahanol fath o offer sydd ar gael.

Y Fynwent

Adroddwyd fod y Cyng. Richard Robinson a'r Clerc wedi mynychu seremoni wobrwyo y 'Memorial Awareness Board' am 2018. Adroddwyd fod Mynwent Llanrug wedi derbyn yr ail wobr ar gyfer mynwentydd ar draws Prydain ac fe dderbyniwyd tystysgrif yn dangos hyn.

Ceisiadau Cynllunio

Cais i wneud newidiadau i'r agosiadau, ychwanegu ffenestri to ynghyd a newid y llechi ar gyfer y to o lechi Cymreig i lechi Sbaeneg. Adeilad tu cefn i 3 Tai Hermon, Llanrug. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am eu bod wedi dewis peidio defnyddio llechi lleol.

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i ddymchwel estyniad un llawr, creu estyniad cyswllt a chodi estyniad deulawr newydd yn Llety'r Wenol, Caeathro

Mewn cyfarfod arbennig o'r cyngor ar y 14eg o Dachwedd, 'doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu 9 o fyngalos ar Dir Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug ond fe ofynwyd i'r Cyngor Sir ystyried y canlynol:

a) Edrych ar drefn parcio ar blot 4;

b) Llwybr troed i Ffordd yr Orsaf nodwyd nad oedd y datblygwr yn mynd i wneud hyn;

c) Plot 7 – angen sicrhad na fydd adeilad yn cael ei adeiladu ar y tir ble mae'r adroddiad yn cyfeirio na ellir adeiladu annedd arno.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS HYDREF 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 10fed o Hydref, 2018 am 7.00 y.h.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp,.

Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Nicola Brown, Iwan Harding, Trystan Thomas

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 19eg o Fedi, 2018 fel rhai cywir

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Toiledau:

Er fod trafodaethau pellach wedi bod rhwng y Clerc ac un o swyddogion Cyngor Gwynedd (CG) chafwyd dim datrysiad i'r broblem. Yn ôl y swyddog roedd ymdrech newydd ddechrau i chwilio am noddwyr o blith busnesau mwya'r pentref i gynorthwyo i gadw'r toiledau ar agor ond hyd yma chafwyd dim ymateb. Gan nad oedd unrhyw ateb pendant wedi ei gael am gymorth o arian parcio 3 maes parcio'r Cyngor, penderfynwyd cadw at y penderfyniad gwreiddiol i beidio cynnig cymorth i gadw'r toiledau ar agor y gaeaf yma. Mae'r Cyngor o'r farn fod angen partneriaeth gyda CG i gadw'r toiledau ar agor, ond hyd yma chafwyd dim arwydd o gydweithio i greu un.

2. 'Trem y Chwarel', Llanberis:

Cafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth gwmni Beresford Adams, Caernarfon ac erbyn hyn mae'r enw Quarry View wedi ei dynnu oddi ar yr holl ddeunydd hysbysebu ar wefan y cwmni.

3. Parcio Peryglus:

Yn ôl dymuniad y Cyngor hwn cafwyd ar ddeall bod CG am osod llinellau 'gwahardd parcio ar unrhyw adeg' ym Mhentre Castell a bydd llinellau ychwanegol tebyg hefyd ar gyfer atal parcio yn y fynedfa i Stad Ddiwydiannol Y Glyn a gyferbyn a hi ar y lôn gefn ar ochr y llyn.

4. Cae Chwarae CG ym Mlaen y Ddôl:

Cafwyd addewid y byddai CG yn edrych ar y mater yn fuan.

5. Sul y Cofio:

Disgwyl ymateb oddi wrth CG i'r cais i gau'r ffordd ar gyfer y gwasanaeth.

6. Y Gofeb:

Cafwyd addewid y bydd y sgaffaldiau'n cael eu gosod yr wythnos nesa er mwyn glanhau a phaentio'r llythrennau.

5 MATERION ERAILL:

1. Maes Chwarae Min y Llyn:

Wedi prynu coed-fwrdd i drwsio offer a daeth yn amser eu gosod. Cafwyd pris trwy CG a oedd braidd yn ddrud, dros fil o bunnau heb gynnwys TAW. Roedd y Clerc wedi holi oedd dim modd cael gwell pris ond wedi cael ateb negyddol. Roedd wedi awdurdodi gwneud y gwaith, gan ei fod yn fater o frys, a chytunwyd a hynny.

2. Cilfan Adwy Ffordd Haearn:

Penderfynwyd gofyn i Eric Baylis dacluso'r gwely planhigion a gorffen y plannu.

3. Y Nadolig:

Penderfynwyd prynu dwy goeden Nadolig, un i'r Nant a'r llall i Lanberis fel yn y gorffennol. Roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu â DO, y trydanwr, i ofyn iddo wneud yn siŵr fod isadeiledd trydan y goleuadau yn ddiogel yn y ddau bentref. Addawodd wneud hynny yn nechrau Tachwedd unwaith y bydd yn ôl o'i wyliau.

6 GOHEBIAETH:

1. CG - Cau Ffordd:

Rhybudd y bydd rhannau o Ffordd y Graig a Ffordd Rallt Goch yn cau ar y 7fed o Dachwedd ar gyfer gwaith.

2. Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanberis:

Cyhoeddwyd taflen wybodaeth gan gwmni Griffiths yr ymgymerwyr sy'n codi pont newydd yn lle Pont y Ddôl. Mae'r gwaith o gwblhau'r bont i ddod i ben erbyn diwedd Tachwedd, gyda gwaith pellach ar y gweill i godi'r glannau ger tai Glanrafon y gwanwyn nesaf. Mynegwyd siom nad oedd Hannah Blythyn AC, Gweinidog Amgylchedd Llywodraeth Cymru, a ddaeth i'r pentref i weld y gwaith wedi trafferthu cysylltu â'r Cyngor i ddweud ei bod yn dod ac i wahodd cynrychiolydd o'r Cyngor. Roedd KMJ fel Cynghorydd Sir wedi bod yn y cyfarfod, ond neb arall o'r Cyngor.

3. Cist Gwynedd:

Nodyn yn dweud ei bod yn amser gwneud cais am gymorth ariannol. Gofynnwyd i'r aelodau wasgaru'r wybodaeth.

4. Archwiliad Blynyddol:

Derbyniwyd llythyr yn dweud na fyddai cwmni BDO wedi cwblhau'r Archwiliad Blynyddol erbyn diwedd Medi ac yn cynnwys hysbyseb i'w roi ar yr Hysbysfyrddau am 14 diwrnod i nodi hynny.

5. Heddlu - Swyddog Cefnogi Cymuned:

Llythyr yn nodi mai Nia Roberts yw'r swyddog â chyfrifoldeb lleol. Adroddwyd i'r gweithgareddau haf fod yn llwyddiannus a bod bwriad i gynnal gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol y Nadolig yn y pentref, ar ôl yr ŵyl.

6. Grwp Dayblygu Llanberis:

Cafwyd gwybod y cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Iau, y 13eg o Ragfyr, yr Orymdaith o gaffi Petes Eats i'r Heights a bwyd a diod ac adloniant ynghyd â stondinau crefftau yno. Os am lecyn ar gyfer stondin cysyllter â'r Heights, Ffôn 01286 238235.

7. CG Holiadur Blaenoriaethau:

Posteri a gwybodaeth ar-lein ar gyfer yr holiadur i drigolion y sir nodi lle mae eu blaenoriaethau wrth i CG wynebu toriadau pellach yn eu cyllideb. www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau os am ymateb ar lein, neu fe ellir anfon at Eichbarn@gwynedd.llyw.cymru neu lenwi'r holiadur papur.

**RHAGHYSBYSEB**

Bydd y Noson Garolau boblogaidd dan arweiniad Marcus Robinson yn cael ei chynnal ar Nos Iau. Rhagfyr 20 eleni yn y Neuadd Goffa.Bydd y drysau yn agor am 6pm. Tal mynediad fydd £2 yn cynnwys Gwin Poeth/ Paned a mins pei. Dewch yn llu.

**COFION**

Bu Gwyneth , Fachell a Rita draw i Lanharan yn ddiweddar i ymweld a Glenys a Siencyn . Cawsant groeso cynnes iawn a digon o amser i sgwrsio. Mae Glenys a Siencyn yn danfon eu cyfarchion cynhesaf i'w llu cydnabod yma ym Methel. Erbyn byddwch yn darllen hyn mae gobaith bydd Glenys a Siencyn yn daid a nain, gyda Aled a'i wraig draw yn Vancouver wedi derbyn eu 'anrheg Nadolig' cynnar eleni. Dymuniadau gorau iddynt hwy hefyd fel teulu draw yng Nghanada.

**DIOLCH**

Dymuna Mair Read a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a chydymdeimlad tuag atynt ar golli eu mam, Cathryn James, Llanberis yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r Parch. John Pritchard a chwmni E. W. Pritchard am eu gwasanaeth ddydd yr angladd.

## *Eisteddfod Bethel 2018*

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, Hydref 20fed, 2018. Y beirniad cerdd oedd Mrs Nia Evans, Aelwyd Môn, a'r beirniad llefaru oedd Mrs Siân Teifi, Llanfaglan. Arweinyddion y prynhawn oedd Mr Gwion Owen a Miss Bronwen Price, gyda Manon Gwynedd a Anita Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Deilwen Hughes, Gwenllian Griffiths a Heledd Price. Elen Llestyn oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhubanau i'r plant ieuengaf.
Canlyniadau:

**CANU AC OFFERYNNOL**

Unawdau
Dosbarth Meithrin: 1af – Efa Glain, 2il – Math a Efa Jane, 3ydd – Alaw a Cian
Dosbarth Derbyn: 1af – Ffion, 2il – Siwan, 3ydd – Efa a Gwil
Blwyddyn 1: 1af – Efa, 2il – Lydia, 3ydd – Megan a Owain
Blwyddyn 2: 1af – Megan, 2il – Rhiannon, 3ydd – Kyla a Ryan
Blynyddoedd 3 a 4: 1af – Lleucu, 2il – Sara Lois, 3ydd – Caio a Max
Blynyddoedd 5 & 6: 1af – Llyr, 2il – Gruff, 3ydd – Alaw a Cadi
Blynyddoedd 7- 9: 1af – Beca, 2il – Zara
Blynyddoedd 10-13: 1af – Heledd
Partïon Canu
Blynyddoedd 1-3: 1af – Plant Bach Prysur, 2il – Parti Wil
Blynyddoedd 4-6: 1af – Parti Di-enw, 2ail - Plant Prysur
Parti Canu Uwchradd - Côr
Alaw Werin
Blynyddoedd 7-13: 1af – Tomos, 2il - Beca
Cerdd Dant
Blynyddoedd 1-6 : 1af – Gruff
Blynyddoedd 7-13: 1af – Heledd
Piano
Blynyddoedd 4-6: 1af – Ifan Aled, 2il – Cadi a Lydia, 3ydd – Sion Sion a Elin
Blynyddoedd 7-9: 1af- Owain, 2il – Mari, 3ydd – Erin a Beca
Blynyddoedd 10-13: 1af – Gwenllian
Deuawd: 1af – Gwenllian a Heledd, 2il – Beca a Cadi
Offerynnol
Blynyddoedd 1-6: 1af – Ifan, 2il – Eban, 3ydd –Lydia
Blynyddoedd 7-9 : 1af – Mari
Blynyddoedd 10-13: 1af – Owain Llestyn
Can Gyfoes - 1af - Tomos, 2ail Heledd, 3ydd – Gwenllian a Beca
Meimio i Gân Gyfoes: 5 Seren
Grŵp Offerynnol: Owain, Elen a Ioan

**LLEFARU**

Dosbarth Meithrin: 1af – Cian, 2il – Ted a Efa Glain, 3ydd – Efa Jane
Dosbarth Derbyn: 1af – Siwan, 2il – Ffion a Gwil, 3ydd – Efa
Blwyddyn 1: 1af – Lydia, 2il – Rio, 3ydd – Owain a Megan
Blwyddyn 2: 1af – Rhiannon, 2il – Kyla, 3ydd – Megan
Blynyddyn 3 a 4: 1af – Lleucu, 2il – Leia, 3ydd – Steffan
Blynyddoedd 5 & 6: 1af – Llyr, 2il – Gruff, 3ydd – Cadi Glain
Partïon Llefaru
Blynyddoedd 1-3:1af – Plant Bach Prysur, 2il – Parti Sara Lois
Blynyddoedd 4-6: 1af – Plant Prysur, Y Parti Di-enw
Blynyddoedd 7-13: 1af – Parti Cai
Darn Heb ei Atalnodi: 1af – Iolo, 2il Gwenllian, 3ydd – Ioan

*ENILLWYR Y TLYSAU*

Tlws er cof am Richard Hughes (Ysgol Yrru Bethel) (Llefaru Cynradd): Lleucu Mair
Tlws Llefaru Uwchradd:
Tlws Coffa Siân Robinson (Darn heb ei Atalnodi): Iolo Roberts
Tlws Parc y Wern (Parti Llefaru Cynradd): Plant Bach Prysur
Tlws Coffa Goronwy Jones (Lleisiol Cynradd): Lleucu Mair
Tlws Coffa W.G. Ellis (Piano Cynradd): Ifan Aled
Tarian Ael y Bryn (Offerynnol Cynradd): Ifan Aled
Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (Lleisol Uwchradd): Heledd Prys
Tlws Coffa John M. Williams: (Piano Uwchradd): Gwenllian
Tlws Teulu Penparc (Offerynnol Uwchradd): Owain Llestyn
Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Plant Bach Prysur
Tlws Coffa Annie E. Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Parti Cai

Mae'r tlysau bach sydd i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Iwan a Eirian Davies, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Emyr a cAnita Owen, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

**SEREMONI'R CADERIO**



Ein beirniad Llên oedd Mrs Siân Teifi, Llanfaglan, a braf oedd ei chroesawu i Fethel ar gyfer y Seremoni. Y Prif Lenor Cynradd oedd Ela Williams a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Ioan Evans. Derbyniodd y Llenor Cynradd Dlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Manon Gwynedd. Derbyniodd y Llenor Uwchradd Dlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd dan ofal medrus Manon Gwynedd. Eban Moss a Henry Edwards oedd Ceidwaid y Cledd, Owain a Elen Llestyn yn chwythu'r Corn Gwlad, Gwenllian yn canu Cân y Cadeirio a Siôn Elwyn yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Kia-Jo a Lydia Thomas. Elin a Ifan Aled cyfarchodd y llenorion gyda phenillion a gyfansoddwyd gan y beirniad a hefyd cyflwynodd y tlysau i'r llenorion buddugol.
Cyflwynir Y Cwpan er Cof am Geraint Elis i'r llenor buddugol ym Mlynyddoedd 7- 9 yn ogystal â thlws i'w gadw am byth gyda'r arian. Enillydd y Gwpan oedd Cai Moss.

**CANLYNIADAU LLENYDDIAETH**

1. Meithrin: 1af - Guto, 2ail - Ted, 3ydd - Bobi
2. Derbyn: 1af - Tomi, 2ail - Elin, 3ydd - Ffion
3. Blwyddyn 1: 1af – Efa, 2il – Megan, 3ydd – Rio
4. Blwyddyn 2: 1af – Osian, 2il – Rhiannon, 3ydd – Megan
5. Blwyddyn 3: 1af – Ana; 2il – Beca; 3ydd – Lleucu
6. Blwyddyn 4: 1af - Efa, 2il – Cadi, 3ydd - Adam
7. Blwyddyn 5: 1af – Gruff, 2il – Erin 3ydd – Tomos Evans
8. Blwyddyn 6: 1af – Ela Williams , 2il - Laura, 3ydd – Siwan
9. Blynyddoedd 7-9: 1af – Cai Moss, 2il – Mari, 3ydd – Elain
10. Blynyddoedd 10-13: 1af – Ioan Evans, 2il – Heledd, 3ydd: Gwenllian
11. Y Limrig – Elen Ellis

Llain yr Ardd- 1af- Helen Morris.

**CYSTADLAETHAU CELF A CHREFFT**

Y beirniad oedd Miss Elan Rhys, Caernarfon, Unwaith eto cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau celf a chrefft gyda nifer o eitemau creadigol iawn . Braf oedd cael arddangos y gwaith yn y Neuadd fechan ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Eban Moss
Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Lleucu Mair
Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Elain Llwyd

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o Eisteddfod Bethel 2018.
Diolch yn arbennig i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniaid am eu hamser, eu cyngor a'u cwmni; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau Llên, arlunio, canu a llefaru unigol; i'r holl wirfoddolwyr am roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio; i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion ac i Bwyllgor y Neuadd Goffa am gael defnydd o'r Neuadd yn ystod yr wythnos. Diolch i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod a diolch i bawb o Bwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled unwaith eto er mwyn sicrhau Eisteddfod lwyddiannus unwaith eto eleni.

## CHWYSU ER LLES Y PENTREF




Dyna'n sicr fu hanes Delyth Gwyn a'i brawd Iwan Morris yn ddiweddar drwy gwblhau Hanner Marathon Caerdydd. Mae'r ddau wrth eu bodd yn cystadlu ac wedi elwa o ymuno a Chlwb Rhedeg Bethel. Eleni roedd Delyth wedi cwblhau y cwrs mewn amser o 1 awr 49 munud. Dipyn mwy hamddenol oedd amser Iwan – 3 awr 8 munud. Herio'r 3 awr y tro nesaf Iwan.

Llwyddodd y ddau i gasglu nawdd o £690 a rhannwyd yr arian yn gyfartal rhwng Cylch Meithrin Bethel, tim dan 10 pel-droed Bethel a Chronfa Calonnau Bethel. Yn y llun gwelir Iwan – gyda'i fedal – yn cyflwyno'r siec i Anti Zoe ac Anti Karen o'r Cylch, Sioned o'r Gronfa Calonnau a Max, Adam, Llyr a Gruff yn cynhyrchioli y pel-droedwyr. Diolch i Delyth ac Iwan am eu ymroddiad a'u haelioni.

## CYFARFOD CYHOEDDUS



Fel sydd yn hysbus bellach bydd Siop Bethel yn Saron yn cau ym mis Ebrill , er bydd gwasanaeth y Swyddfa Bost yn aros ar agor. Or cyfnod yna ymlaen felly bydd y rhan o'r adeilad a ddefnyddir fel siop, a'r tŷ drws nesaf ar werth. Ni fydd y 'storfa' ar draws y ffordd yn rhan o'r pecyn gwerthu. Daeth tua 60 o bobl draw i'r Neuadd Goffa i wyntyllu y posibiliadau 'cymunedol' sydd ar gael i ymestyn cyfnod o gynnal siop ym Methel.Dan gadairyddiaeth y Cyng. Sion Jones amlinellwyd gwahanol opsiynau yn amrywio o geisio grantiau i bwrcasu yr adeilad, i gynnig cyfranddaliadau, neu cael criw bach i gyfrannu arian ac felly yn gweithredu fel 'trustees'. Roedd gwybodaeth hefyd fod perchenog Y Bedol yn cynnig i'r gymuned rentu cyfleusterau Y Bedol – yn siop, tafarn a bwyty – ar bris ostynedig o £1200 y mis.

Yr oedd barn bendant o geisio cynnal gwasanaeth siop ym Methel, ond bod angen gwyntyllu pob opsiwn o leoliad ac ariannu cyn dod i benderfyniad pendant. Cafwyd awgrym cryf y dylsai unrhyw 'benderfyniad' ddeillio o wir farn y gymuned gyfan. Cafwyd amryw gyfraniadau o'r llawr gyda awgrym cryf i wyntyllu pob opsiwn yn fanwl. I'r perwyl hwn fe ffurfwyd pwyllgor craffu ar yr holl opsiynau. Bydd y pwyllgor yn cynnwys cynghorwyr y pentref ar lefel sirol a chymunedol, a hefyd enwau a godwyd o'r llawr. Wedi eu hymchwiliadau bydd y pwyllgor yma yn ateb yn ol i gyfarfod cyhoeddus arall, ac yno penderfynir y ffordd ymlaen.

## CLWB BRO BETHEL



Eleni mae pwyllgor y clwb wedi penderfynu amrywio ei rhaglen gweithgaredd. Bydd rhai sesiynau yn cael eu cynnal ar ffurf ymweliadau. Bu'r cyntaf ohonynt yn llwyddianus, pan deithiodd tua 30 draw i grochendy Piggery yng Ngwm-y – glo. Cafwyd croeso cynnes, a phaned, gan y perchenog Barbara Winrow. Cafwyd cyfle i weld yr amrywiaeth eang o gynnyrch â gynhyrchir yn y crochendy. Mae ambell un, fel y goleuadau nos i blant ifanc wedi eu prynu fel anrhegion Nadolig. Roedd y platiau yn cofnodi achlysuron penodol – priodas, bedydd, pen-blwyddi penodol, hefyd yn denu sylw. Y prif atyniad oedd y cyfle i ddewis un darn penodol o grochenwaith ac yna ei beintio. Rhaid cyfaddef fod hwn yn weithgaredd poblogaidd ac roedd cryn falchder yn y 'campweithiau' a grewyd ac a lapiwyd yn ofalus i'w cyrchu adref. Clywyd rhai yn cyfaddef nad oeddent wedi gwneud hyn 'ers dyddiau'r ysgol.'

Un ystadegyn diddorol eleni. Ar hyn o bryd mae gan y clwb 42 o aelodau – y nifer uchaf ers sawl blwyddyn. Mae digon o le i unrhyw un arall ymuno gyda'r criw hwyliog. Tybed a yw'r twf yma yn adlewyrchiad o brinder mannau cyfarfod naturiol yn y pentref bellach?

Y mis nesaf bydd y clwb yn cynnal eu cinio Nadolig, ac wedi eu bodloni y llynedd bydd yr aelodau yn teithio gyda Bws Derfel yn ôl i Dafarn y Glandwyfach.

## LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Bu Tachwedd yn fis llwyddianus i ddau fardd a chysylltiadau â Bethel. Cyflawnodd Dafydd Guto y dwbwl – y Gadair a'r Fedal Ryddiaith – yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cipiodd Richard Llwyd Jones y Gadair a'r Englyn yn Eisteddfod Llanrhaeadr-ym – mochnant, Powys.

## CYDYMDEIMLAD

Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Einir Pritchard a'r teulu wedi marwolaeth chwaer Einir yn Llanrug.

## AIL-GYLCHU

Mae'r ystadegau yn dangos fod gan Gyngor Gwynedd record dda o ran y ganran o ddeunydd gwastraff a ail-gylchir. Siom felly oedd gweld diflaniad y blychau ail-gylchu mor ddi-symwth o'r llecyn ger y maes pel-droed. Roedd y blychau yn cael eu defnyddio yn rheolaidd gan bentrefwyr Bethel a thu hwnt. Ni hysbysebwyd y Cyngor Cymuned fod y blychau yn cael eu symud ond ychydig ddyddiau cyn y weithred. Siomedig iawn. Mae angen weithiau esboniad mwy na'r arferol 'toriadau'. Mae rhai yn darogan bydd hyn yn arwain at y tipio answyddogol, ac mae arwyddion fod hyn eisioes yn digwydd o gwmpas y pentref.

## TAI FFORDDIADWY

Mae'r tai bellach bron â'u cwbwlhau yn y cae ger stad Bron Gwynedd. Mae'n ymddangos fod y datblygwr eisioes wedi gwerthu y tai ymlaen i Gymdeithas Tai Cynefin gyda'r bwriad o'u gosod ar rent. Gobeithio bydd Cynefin sydd yn ymdrin a mannau penodol gydag hawl cynllunio yn gweld hi'n glir i rai o deuluoedd ifanc lleol fanteisio ar y cyfle i gymryd y cam cyntaf ar yr ystol dai. Cawn weld.

# *Parhad* BETHEL

## Ysgol Gynradd





### Ymweliad a Glanllyn

Wel am dridiau a gafodd disgyblion Blwyddyn 5 yng ngwersyll yr Urdd yn Glanllyn. Tywydd bendigedig cyn y storm fawr, gweithgareddau amrywiol a diddorol ac wrth gwrs uchafbwyntiau anhygoel megis cwrdd â'r tylluanod a chael marshmallow wedi tostio ger y llyn! Amser gwych a phob un wedi mwynhau! Roedd agwedd, ymddygiad ac ymdrech y disgyblion i'w canmol. Diolch blantos.

### Gryffalo Glynllifon

Cafodd Adran y Babanod antur yn y coed yn Glynllifon er mwyn cloi eu gwaith ar Y Gryffalo. Bu'r disgyblion yn canu, gwneud gwaith drama, celf a didoli dail yn Fathemategol. Am ddiwrnod prysur!! Llawer o hwyl yn dysgu yn y tu allan, profiadau bendigedig.





### Pel-Rwyd

Llongyfarchiadau i'r tîm Pêl Rwyd am ymdrech arbennig yn y twrnamaint a churo pedair allan o'u chwech gem. Gwych! Llongyfarchiadau enfawr i Laura sydd wedi cael ei dewis i garfan Pêl Rwyd Gogledd Cymru. Camp a hanner wedi treialon drost y penwythnos.

### Rygbi

Aeth tîm rygbi'r ysgol i lawr i'r Morfa i gystadlu yn nhwrnamaint Ysgolion Cynradd y fro. Aethant i mewn i'r ffeinal heb golli o gwbl ar ôl chwarae chwech gem. Wedi brwydro yn arwrol, colli yn y ffeinal wnaeth y plant. Ymdrech arbennig yn erbyn rhai o ysgolion mawr yr ardal! Gwych fechgyn (a geneth!)

## SUL Y COFIO

A hithau'n ganmlwyddiant i'r diwrnod o arwyddo'r Cadoediad denwyd torf sylweddol i'r gwasanaeth ger y gofgolofn ar libart yr Ysgol Gynradd. Unwaith eto cafwyd arweiniad pwrpasol gan y Parch. Marcus Robinson, a wasanaethodd fel caplan yn y morlu, Clywyd hefyd leisiau'r ifanc, a diolch i blant yr ysgol gynradd dan arweiniad Dylan Parry ac aelodau eraill o'r staff am eu cyfraniad urddasol.

Fel arfer cyflwynodd sawl mudiad ac unigolion dorchau ger y gofeb. Eleni y rhai a gyflwynodd eu teyrngedau o barch oedd Merched y Wawr, Pwyllgor y Neuadd, Clwb Snwcer Bethel, Clwb Bro Bethel, Clwb Pel-droed Bethel, Cyng. Sion Jones, Eirian a'r teulu ( er cof am Hugh Thomas), Teulu'r Fachell er cof am John Owen Morris, Torch Unigol Guto Bee, Torch unigol er cof am Robin, Ar ran plant y pentref ( aelod o'r Ysgol Gynradd), a chyflwynwyd torch ar ran y pentref.

Yr oedd yn ddiwrnod teimladwy i aelodau o deulu dau sydd a'u henwau ar y gofeb yn yr ysgol ac ar fur y Neuadd Goffa. Lladdwyd John Williams, Ael-y- bryn , yn yr Ail Ryfel Byd a'i daid, hefyd John Williams yn y rRhyfel Byd Cyntaf. Daeth grwp o bymtheg draw i'r gwasanaeth, rhai wedi teithio o Loegr, ond un wedi teithio o Ganada. Hoffai'r teulu ddiolch i bentrefwyr a fu mor gynnes eu croeso iddynt. Cawsant gyfle i dynnu sawl llun wrth y gofeb ar dir yr ysgol a ger y gofeb yn y Neuadd Goffa. Gosodasant groes bren fechan gyda bathodyn y Corfflu Cymreig ac enwau'r ddau ger y gofeb.



Pwy tybed fydd yn plygu pen ger y gofeb ymhen canrif arall, a sawl enw fydd ar y lechen? Ein gobaith bob blwyddyn yw ' na foed na dial na phoen/ na chariad at ryfel ond rhyfel yr Oen.' Braf fuasai meddwl yn y dyfodol agos na wireddir y ddwy linell olaf o'r englyn a weithiais wedi ymweld a Phorth Menin yn Ieper, gyda'i 52 000 o enwau i'r rhai nad oes iddynt feddau cofrestredig.

Troedia eco'r catrawdau, - a'u haberth
yw cydwybod oesau;
a gwn mai bedd heb ei gau
yw'r maen sy'n drwm o enwau.

# Chwaraeon Ysgol Brynrefail



Dan 14
*Beca Parry bl8  Mared Llwyd b9  Molly Chisholm b9  Mali Brookes b9*




Dan 16
*Melody Haston Wilson b10  Abbi Parkinson b10 Georgia Parkinson b10  Elin Thomas B11*

Yng nghanol mis Tachwedd fe wnaeth nifer fawr o enethod yr ysgol dreialu ar gyfer timau dan 14 a dan 16  Pel-rwyd Gogledd Orllewin Cymru fel rhan o dimau Arfon.  Llongyfarchiadau mawr iawn i'r canlynol sydd wedi cael eu dewis ar gyfer y carfannau. Ysgo Brynrefail yr ysgol gyda'r gynrychiolaeth fwyaf o unrhyw ysgol yn y ddwy garfan.

# COLLI CYMERIAD

Dros y blynyddoedd rwyf wedi cyfeirio at ambell berson fel 'dyn ffwtbol'. Dyma'r rhai sy'n trafod y gêm, gwylio'r gêm a chyfrannu i'r gêm. Un felly oedd y diweddar Cecil Jones, a fu farw yn ddiweddar wedi cyfnod o salwch. Un o hogia Llanber oedd Ces ond gyda chlwb pel-droed Conwy y cysylltir ef. Bydd rhai yn cofio tîm enwog Borough United yng Nghyffordd Llandudno hyd at y chwe degau hwyr. Tîm dawnus yn yr hen Welsh League ac â lwyddodd i gipio Cwpan Cymru. Pan ddaeth y clwb i ben roedd bwlch pel-droedaidd yn yr ardal honno. Yn y sefyllfa yma y daeth Ces i'r amlwg. Casglodd griw gweithgar fel pwyllgor o'I gwmpas. Datblygwyd maes chwarae o'r radd flaenaf yn ôl safonau'r Gogledd ar y Morfa. Cae, llif oleuadau, cyfleusterau cymdeithasu. Tipyn o gamp, a daeth llwyddiant ar y cae hefyd. Gweithio eu ffordd I fyny'r cynghreiriau nes cyrraedd Cynghrair Cymru. Dal eu tir gyda timau safonol dan arweiniad John Hulse a Ken McKenna. Ces yno yn eu harwain, yn annog a gwerthu raffls yr un pryd! Ef oedd Mr. Conwy. Awn yno yn aml y cyfnod hynny i 'wneud' gêm ar gyfer rhaglen Chwaraeon pnawn Sadwrn. Ces yno'i groesawu a holi am hanes Llanber – weithiau Llanrug – ac os oedd Jiws yn byhafio. Dau o'r un anian oedd Ces ac Iwan Jiws.

Yn anffodus, yn nyddiau cynnar Cynghrair Cymru roedd torfeydd â wyliau y mwyafrif o'r clybiau yn annigonol i dalu'r costau rhedeg y timau o ran cyflogau a'r costau teithio i'r De. Gyda'r Barri, Bangor a'r Seintiau yn gryfach o ran chwaraewyr ac adnoddau arianol ( rhyfedd dweud hynny o gofio cyflwr Bangor ar hyn o bryd) disgyn fu hanes Conwy. Ond, aros yn driw wnaeth Ces. Erbyn hyn mae Conwy bellach yn chwarae yn yr adran un lefel dan y Genedlaethol.

Dyn addfwyn, ond sicr ei farn ar ddadleuon ar drefniadaeth pel-droed oedd Ces. Dyn a gwên, dyn o ruddin. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled.

# Chwaraeon

## YR UN NÔD, OND….

Rwyn sgwenu'r erthygl yma fore drannoeth gêm bel-droed Cymru yn Albania a thri diwrnod cyn gêm rygbi Cymru yn erbyn De Affrica. Siom o edrych yn ôl a brwdfrydedd o edrych ymlaen. Yn y ddwy gamp mae nod gyffredin. Mae Ryan Giggs yn ceisio rhoi cyn gymaint o brofiad ag sy'n bosibl i chwaraewyr ifanc i greu dyfnder i'w garfan ar gyfer Cwpan Gwledydd Ewrop mewn dwy flynedd. Ym myd rygbi creu carfan o ddyfnder ar gyfer Cwpan y Byd mewn 6 mis yw bwriad Warren Gatland.Gan fod y niferoedd a ellid eu cynnwys yn y garfan derfynol yn gyfyngedig mae strategaeth y ddau hyfforddwr yn gyffredin. Gwelwn chwaraewyr ieuanc yn cael cyfle yn y ddwy gamp. Mae hyn i'w ganmol. Ond, â yw strategaeth Giggs o orlwytho y tîm gyda chwaraewyr di-brofiad yn un doeth? Yn ei wyth gêm gyntaf record Giggs yw E3 C4 Cyf. 1. 10 pwynt allan o 24 fel petai. A yw hyn yn dderbyniol?

Yn sicr, nid oedd y perfformiad yn Albania yn dderbyniol. Roedd diffyg ymdrech a thechneg mewn rhai achlysuron. A oedd y chwaraewyr 'profiadol' yn rhoi digon o arweiniad? Na, yn fy marn i, a dylsai Volkes, King, Ramsey a Bale fod yn siomedig a'u cyfraniad. Mae'r cyfleuon mae Volkes yn eu fethu ar y lefel yma – gyda'i lond trol o brofiad – yn embaras. Nid yw King yn greadigol. Beth sy'n bod ar Ramsey ar hyn o bryd? Diolch fod Joe Allen yn gwneud gwaith drostynt. A oedd Brooks a Wilson yn trio gwneud gormod gyda'r bêl wrth eu traed? Ydy mae yn tanio'r dorf eu gweld – a'u cyflymder – yn rhedeg at amddiffynwyr, ond safon isel oedd i'r bas olaf – a dyna'r un sy'n cyfrif.

Ond beth am Giggs fel trefnydd tactegau. Wedi gôl Albania roedd Cymru yn hollol ddi – siap, eu pasio yn llac, ac Albania yn cael gormod o gyfle i wrth ymosod. Ydy Giggs yn fwy o unben na Coleman. A yw'r berthynas rhyngddo ac Osian Roberts cyn agosed ac y gallai fod? Efallai I chwi deimlo fy mod yn or-hallt am gêm nad oedd yn cyfrif. Ydy mae pob gem ryngwladol yn cyfrif, a bydd datblygiad y chwaraewyr yn well o fod mewn tîm sy'n ennill gemau. Collwyd cyfle yn Albania i gynnal y rhediad addawol. Gobeithiwn mai noson wael oedd hi, ei bod allan o'r ffordd, a bod y dyfodol yno i'n cyflyrru unwaith eto.

Yn erbyn Tonga gwelwyd sawl newid a gwelwyd y Gymru cynhenid yn chwarae ar dempo uchel a sgiliau i'w canmol. Yma eto mae chwaraewyr ifanc yn herio'r hen drefn. Eto, yn y gemau mawr, y Gymru gorfforol, cadw hi'n dynn a welwn. Ie, yn unrhyw gamp rydym eisiau ein diddori, yn enwedig o gofio prisiau tocynnau bellach. Ond, mi fuasem yn maddau pob gwendid pe welwn Gatland a'i garfan yn codi Cwpan y Byd mis Mawrth nesaf a charfan Giggs yn rowndiau terfynnol Cwpan Gwledydd Ewrop. Dyna yw natur unrhyw gamp ar y lefel uchaf – gwên a gwg yn gymdogion agos. C'mon Cymru!


ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188






# Chwaraeon

## RHOI YN ÔL





Fe all tim dan 10b Bethel gael eu sbarduno eleni yn eu kit newydd – kit nid anhebyg i lifrau Barcelona. Llwyddwyd i ddenu noddwr, un a'i wreiddiau a'i brofiadau pel-droed yn ddwfn yn y pentref. Magwyd Gari Jones yma a chynrychiolodd adran ieuenctid y clwb o oedrannau -11 i -16. Ei hyfforddwr yr adeg hynny oedd yr arch reolwr, hyfforddwr a llumanwr Andrew 'Klopp' Williams. Aeth Gari ymlaen i gynrychioli tîm hŷn y pentref fel cefnwr chwith a chanol cae medrus gyda troed chwith gelfydd. Ei hyfforddwr yn nhîm y dynion oedd Andrew 'Fawr' Williams, a fu yn graig yng nghanol amddiffyn y tiîm. Andrew bellach yw hyfforddwr tîm dan 10 Bethel.

Pan ddaeth Gari draw i gyflwyno'r kit cafwyd sesiwn holi ac ateb a chafwyd ambell i stori am rai o gemau a chymeriadau'r cyfnod. Mae'n 30 mlynedd bellach ers i'r gyfres hynod boblogaidd C'mon Midffild ymddangos.Tybed os oedd ambell i Mr. Picton neu Wali Tomos ynglyn a thîm Bethel y cyfnod hwnnw? Calla dawo!
Erbyn hyn mae Gari wedi agor Siop Barbwr ym Montnewydd a gallaf dystio o brofiad fod 'tipyn o gut' yn ei ddawn torri gwallt fel oedd yn bel-droediwr. Diolch Gari ar ran y clwb..

## Gala Nofio




Cynhaliwyd gala nofio blynyddol Clwb Nofio Caernarfon sef Gala Nofio John Sharp dros ddeuddydd yn Llandudno ddechrau mis Tachwedd. Roedd nifer helaeth o fro'r Eco yn cystadlu ac enillwyd sawl medal aur, arian ac efydd. Llongyfarchiadau enfawr i bawb gystadlodd a diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n eu hyfforddi yn ogystal a'r rheiny sy'n eu cludo i'r holl sesiynau ymarfer yn wythnosol. Da iawn bawb.